SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
**COMMISSIONER** NORTH WALES

# 2017/18

## Adroddiad Blynyddol





# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **3** | Cyflwyniad |
| **6** | Cefnogi fy nyletswyddau |
| **9** | Blwyddyn o gyflawni |
| **15** | Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **20** | Blwyddyn o ymgysylltu – golwg gryno |
| **22** | Adroddiad Cynnydd ar Flaenoriaethau Strategol y Cynllun Heddlu a Throsedd - 2017/18 |
| **30** | Crynodeb o Ganlyniadau |
| **35** | Y Rhagolygon Ariannol |
| **36** | Cyllido a Chyllid |
| **40** | Cysylltiadau |

# Cyflwyniad

## Neges gan Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol eleni sy'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

Hwn yw fy ail adroddiad blynyddol ac mae'n darparu gwybodaeth am y blaenoriaethau plismona a gyflwynir yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Byddaf yn cyflwyno trosolwg a gwybodaeth am brif gyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf, gwybodaeth am ein heriau ariannol a'm gweledigaeth ar gyfer y dyfodol fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Wrth i mi ysgrifennu'r adroddiad blynyddol hwn, mae gyrfa hir a disglair Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Mark Polin OBE QPM, gyda'r heddlu yn dod i ben. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i Mark am yrfa eithriadol ac yn arbennig am ei naw mlynedd fel Prif Gwnstabl yma yng Ngogledd Cymru. Mae wedi arwain Heddlu Gogledd Cymru yn anrhydeddus, mewn cyfnod o doriadau ariannol na welwyd mo'u tebyg a chyfnod o newid na welwyd mo'i fath erioed o'r blaen yn y gwasanaeth plismona.

Disgwylir i'r Prif Gwnstabl Dros Dro, Gareth Pritchard QPM, ymddeol hefyd yn y man, yn dilyn gyrfa anrhydeddus o 34 mlynedd yn gwasanaethu gyda Heddlu Gogledd Cymru. Gareth yw'r swyddog cyntaf yn hanes Heddlu Gogledd Cymru i wasanaethu ar bob rheng - sy'n gyflawniad aruthrol, ac rwy'n ddiolchgar iawn iddo am ei wasanaeth a'i ymrwymiad.

Mae Mark a Gareth yn gadael sefydliad cryf ac iach a sylfaen gadarn i'r Prif Gwnstabl newydd, Mr Carl Foulkes, adeiladu arno.


Hoffwn ddiolch hefyd i bawb sydd wedi fy nghynorthwyo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn arbennig swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu a heddlu gwirfoddol Heddlu Gogledd Cymru, a'r holl wirfoddolwyr sy'n rhan o'r teulu plismona.

Rwyf hefyd wedi derbyn cefnogaeth aruthrol gan fy Nirprwy, Ann Griffith a'm tîm bychan o staff ymroddedig sydd wedi arddangos gwytnwch mawr yn y flwyddyn ddiwethaf, wrth ymateb i'r heriau amrywiol a roddwyd ger eu bron. Ni allaf wneud y swydd hon fy hun ac rwy'n wirioneddol werthfawrogol o'r gefnogaeth yr wyf yn ei chael gan bawb.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod Heddlu Gogledd Cymru, o dan arweinyddiaeth y Prif Gwnstabl Mark Polin a'i dîm o Uwch Swyddogion, wedi parhau i berfformio'n dda iawn mewn amgylchiadau heriol iawn. O ystyried maint y toriadau ariannol y mae'r Heddlu wedi'u hwynebu ers blynyddoedd lawer, mae'r gwasanaeth plimsona sy'n cael ei ddarparu i'n cymunedau yn un y gallwn ymfalchïo ynddo.

I roi syniad i chi o 'Ddiwrnod ym mywyd Heddlu Gogledd Cymru', mae'r ystadegau isod yn crynhoi'r galw yr ydym yn ei wynebu'n ddyddiol.

## Diwrnod ym mywyd Heddlu Gogledd Cymru




Mae'r Heddlu wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, yn ogystal â gwneud cynnydd ar fentrau eraill y Gymraeg, er mwyn hybu dwyieithrwydd. Lansiwyd Strategaeth y Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yng Nghynhadledd 'Hybu Dwyieithrwydd' yr Heddlu ar 21 Mai 2018 yng Nghanolfan Busnes Conwy, Cyffordd Llandudno. Roedd y digwyddiad hwn yn rhoi sylw i'r gwaith a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf i hybu dwyieithrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru, ac yn dathlu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle gyda Chomisiynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.


Cafwyd cais gan y Cydbwyllgor Archwilio i gynnal archwiliad i asesu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a chynhaliwyd hyn ar 11-12.12.17. Gwnaed y gwaith hwn gan gwmni archwilio allanol ac fe wnaethant gadarnhau mai'r lefel sicrwydd gyffredinol ar gyfer yr Heddlu oedd 'Sicrwydd Sylweddol'. Roedd yr adroddiad yn datgan bod trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith ar gyfer cyflawni Safonau'r Gymraeg ar draws ardal yr Heddlu a bod y trefniadau llywodraethu hyn yn cael eu rhaeadru drwy'r gweithlu cyfan.

Wrth gwrs, mae heriau yn bodoli a meysydd y mae angen i ni eu gwella, fel y dangoswyd gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) ac yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, drwy fy ngwaith o graffu ar yr Heddlu, rwy'n fodlon bod trefniadau ar waith i wneud gwelliannau yn y meysydd hynny.

Hoffwn ddiolch hefyd i Banel yr Heddlu a Throsedd am eu cyfraniad yn y gwaith o lywodraethu'r trefniadau plismona yng Ngogledd Cymru.

Mae bod yn agored, tryloyw ac atebol yn bwysig iawn i mi. Roeddwn yn falch iawn bod CoPaCC unwaith eto yn cydnabod yr ymrwymiad hwnnw a derbyniodd fy swyddfa'r Wobr Tryloywder ar gyfer 2017. Fy mwriad yw parhau i gynnal y lefel uchel hon o atebolrwydd ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwnnw.

Yn olaf, gwelwyd cynnydd yn y deuddeg mis diwethaf yn y nifer o ymosodiadau ar swyddogion yr heddlu. Gadewch i mi fod yn glir, mae'r ymosodiadau hyn yn gwbl annerbyniol yn awr, ac unrhyw amser. Gall ymosodiad o'r fath gael effaith ddwys a hirdymor ar unigolyn. Derbyniwyd ers gormod o amser, gan lawer, bod y dedfrydau a roddir i'r rhai sy'n gyfrifol am ymosodiadau o'r fath wedi bod yn annigonol. O ganlyniad, mae Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr, gan weithio gyda heddluoedd unigol, cymdeithasau staff a rhanddeiliaid allweddol eraill, wedi ymgyrchu'n weithredol i sicrhau dedfrydau llymach a mwy o ddiogelwch i weithwyr y gwasanaethau brys. Ar hyn o bryd mae'r Bil Ymosodiadau ar Weithwyr Brys (Troseddau) ar ei hynt drwy'r Senedd ac mae'n cwmpasu'r teulu gwasanaethau brys cyfan, yn ogystal â gwirfoddolwyr (Badau Achub, SAR ac yn y blaen). Bwriad yr ymgyrch 'Diogelu'r Amddiffynwyr' yw pwysleisio bod angen diogelu swyddogion yr heddlu os ydym am allu diogelu'r cyhoedd. Yr wyf yn datgan yn falch ein bod yn sefyll ochr yn ochr â'r Ffederasiwn i gefnogi eu hymgyrch, ac yn fy swydd fel Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru, byddaf yn sicrhau pan fydd yr ymosodiadau hyn yn digwydd, y bydd y dedfrydau a roddir i'r troseddwyr yn briodol.



Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru



# Cefnogi fy nyletswyddau

Byddai'n amhosibl i mi wneud fy swydd heb gymorth. Felly, mae adnoddau ar waith i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnaf i gyflawni fy nyletswyddau.

Penodwyd Ann Griffith yn **Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd** yn Awst 2016. Mae'n ymgymryd â nifer o rolau i'm cynorthwyo, gan gynnwys arwain y gwaith o graffu ar ddarpariaeth cwynion yr Heddlu, ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a hi yw Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Troseddwyr Integredig. Gall Ann ddirprwyo a chyflawni pob un o'm dyletswyddau statudol, ac eithrio penodi Prif Gwnstabl, cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd a phennu'r gyllideb.



**ANN GRIFFITH**, DIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

Mae gennyf **dîm bychan o staff ymroddedig** sy'n gweithio ochr yn ochr â mi a'r Heddlu i sicrhau bod y Cynllun Heddlu a Throsedd a phob un o'm dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni. Mae'r tîm yn cynnwys dau swyddog statudol, sef y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid, a staff cymorth sy'n arbenigo ym meysydd ymchwil, polisi, llywodraethiant, cyllid, comisiynu a chyfathrebu. Ni chyflwynir adroddiadau ar nifer o'r dyletswyddau sy'n cael eu cyflawni, er enghraifft ymateb i adroddiadau AHEM, Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, trefnu tribiwnlysoedd apêl yr heddlu, hwyluso cynadleddau, recriwtio a chynnal Pwyllgor Archwilio, yn ogystal â recriwtio Aseswyr Annibynnol ac Ymwelwyr y Ddalfa. Mae manylion llawn y strwythur staffio ar gael ar fy ngwefan.

Derbyniais grant o £814,076 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer cefnogi dioddefwyr troseddau a gwasanaethau cyfiawnder adferol. Rhoddwyd cyfanswm o £390,394 i'r Ganolfan Cynorthwyo Dioddefwyr i'w galluogi i ddarparu cefnogaeth i holl ddioddefwyr troseddau. Gwnaed 34,588 o atgyfeiriadau i'r ganolfan yn ystod y flwyddyn. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi hefyd bod y cyllid a ddarparwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi creu £643,000 o arian cyfatebol ar draws y rhanbarth.

Drwy **Fwrdd Llywodraethu'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr**, rwy'n craffu ar berfformiad y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol a chanlyniadau'r arolwg adborth gan ddioddefwyr. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) ac mae'r aelodau'n cynnwys y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Pennaeth Adran Gweinyddu Cyfiawnder yr Heddlu, Pennaeth Uned Diogelu Pobl Agored i Niwed yr Heddlu, Rheolwr y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr, cynrychiolwyr o'r Grŵp Cynghori Annibynnol ac eraill.

Mae Trais Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol yn fy Nghynllun. Mae gwaith y Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol a'r Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn parhau i fod yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod dioddefwyr y troseddau ffiaidd hyn yn derbyn y cymorth sydd eu hangen arnynt drwy'r system cyfiawnder troseddol. Rheolir y gwasanaeth hwnnw, a'n dull o fynd i'r afael â Thrais Domestig a Thrais Rhywiol yn fwy cyffredinol, drwy'r **Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol,** sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Yn ogystal â'r cyllid yr wyf yn sicrhau ar gyfer y gwasanaethau hollbwysig hyn, sef tua £0.3 miliwn, derbynnir cyllid hefyd gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn sicrhau na wariwyd y grant ar gostau comisiynu a'i fod yn cael ei wario ar y rheng flaen, lle mae'r angen mwyaf amdano, fi yw'r awdurdod atebol ar gyfer y grant a'r modd y caiff ei wario, cynnig a dderbyniwyd gan y Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn ystod 2017.

Ym mis Tachwedd 2017, derbyniodd rhaglen ar gyfer Cymru gyfan, i drosglwyddo'r ffordd mae'r heddlu a'i hasiantaethau partner yn mynd i'r afael â'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, £6.8 miliwn gan y Gronfa Trawsnewid yr Heddlu. Mae'n dilyn gwaith i amlygu effaith ddinistriol y rhai sy'n dioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar gymdeithas. Sefydlwyd y **Bwrdd Prosiect Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** i oruchwylio'r gwaith. Fy Mhrif Weithredwr yw Dirprwy Gyd-gadeirydd y Bwrdd ac rwy'n edrych ymlaen at weld y datblygiadau yn y maes hwn, sy'n cyfrannu llawer iawn o gefnogaeth ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Mae'r **Panel Heddlu a Throsedd** yn parhau i graffu a herio yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau fy mod yn cyflawni fy rôl yn effeithiol. Mae'r adborth yr wyf yn ei dderbyn gan y Panel yn cael ei ystyried ac mae'n fy helpu i wneud penderfyniadau allweddol gan roi ystyriaeth i strategaethau, blaenoriaethau plismona a'r gyllideb. Rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r berthynas adeiladol hon gyda'r Panel.

Mae'r **Cydbwyllgor Archwilio** yn bwyllgor o bum aelod annibynnol sy'n gyfrifol am oruchwylio llywodraethiant fy swyddfa i ac yn Heddlu Gogledd Cymru. Drwy ystyried yr adroddiadau gan yr **Archwilwyr Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru** ac eraill, gallant ddarparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol ac uniondeb yr adroddiadau ariannol a'r prosesau llywodraethu blynyddol. Gall gwaith craffu'r **Cydbwyllgor Archwilio** ein cynorthwyo i ysgogi a nodi gwelliannau pellach. Daeth daliadaeth aelodau'r **Cydbwyllgor Archwilio** i ben ar 31 Mawrth 2018 ac mae Pwyllgor newydd wedi'i sefydlu. Mae gan yr aelodau ddaliadaeth am dair blynedd, y gellir ei ymestyn i 10 mlynedd. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn i weithio gyda hwy ac rwy'n croesawu eu cymorth a'u harbenigedd.

Mae'r **Bwrdd Craffu ar Safonau Proffesiynol (PSSB)** yn monitro ac yn craffu ar y dull yr ymdrinnir â chwynion a chamymddwyn gan Heddlu Gogledd Cymru, er mwyn i mi allu bod yn fodlon bod y trefniadau a'r prosesau sydd ar waith yn briodol ac effeithiol. Cadeirydd y **Bwrdd Craffu ar Safonau Proffesiynol** yw fy Nirprwy, Ann Griffith, ac mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol yn darparu'r cyngor proffesiynol. Bydd Deddf Plismona a Throsedd 2017, ar ôl iddi ddod i rym yn llawn, yn gwneud newidiadau dramatig i'r prosesau perfformiad, cwynion a chamymddwyn presennol ac mae'r **Bwrdd Craffu ar Safonau Proffesiynol** yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu i graffu a chefnogi gweithrediad y newidiadau. Mae staff o'm swyddfa hefyd yn edrych ar ffeiliau cwynion sampl ar hap yn rheolaidd, sy'n gysylltiedig â'r defnydd o rym a materion eraill, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ragfarn yn y broses gwneud penderfyniadau a bod yr ymchwiliadau yn gymesur a theg.

Rydym hefyd wedi recriwtio **aelodau annibynnol** a **chadeiryddion â chymwysterau cyfreithiol** i eistedd mewn gwrandawiadau honiadau o gamymddwyn difrifol ac rydym yn defnyddio cofrestr y Swyddfa Gartref o fargyfreithwyr **annibynnol** i gadeirio tribiwnlysoedd apêl yr heddlu. Rwyf yn hyderus bod yr Heddlu a'm Swyddfa yn ystyried cwynion a honiadau o gamymddwyn yn ddifrifol iawn. Cynhelir Gwrandawiadau Camymddwyn yr Heddlu yn gyhoeddus yn awr, gan ddarparu mwy o agoredrwydd a thryloywder i'r broses. Bydd rheoliadau'r dyfodol ar gael yn fuan, a fydd yn gwella rôl y **cadeirydd â chymhwyster cyfreithiol** ac ymysg newidiadau eraill, cosbau a phrosesau apêl ychwanegol.

Rwy'n cael fy nghynrychioli ar y **Panel Amlasiantaeth ar gyfer gweinyddiadau y tu allan i'r llys.** Diben y panel hwn yw asesu, craffu a rheoli ansawdd y defnydd o gan Heddlu Gogledd Cymru, a hynny'n annibynnol. Gall y panel wneud argymhellion, cyfleu canfyddiadau, hyrwyddo arfer gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu hyfforddiant posibl i'w hystyried gan yr Heddlu neu asiantaeth arall.

Cyflawnir y gwaith craffu gyda chydweithwyr o asiantaethau eraill yn y teulu cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth

Erlyn y Goron, Llys Ynadon, y Ganolfan Cynorthwyo Dioddefwyr a Thimau Troseddwyr Ifanc.

Mae gennyf ddyletswydd statudol i sicrhau bod yr ardal blismona yn darparu system cyfiawnder troseddol effeithiol ac effeithlon. Un o'r dulliau allweddol sydd gennyf ar gyfer cyflawni hyn yw Cadeirio **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru.** Mae aelodau'r bwrdd hwn yn cynnwys y Prif Gwnstabl, Pennaeth Gweinyddu Cyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a Thimau Troseddwyr Ifanc. Amcan Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yw "darparu fforwm amlasiantaeth ar gyfer cyfenwid gwybodaeth, darparu arweinyddiaeth a llywodraethiant, a nodi a goresgyn rhwystrau er mwyn cyflwyno Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol sy'n fwy effeithiol ac effeithlon yng Ngogledd Cymru, sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion dioddefwyr". Mae'r cynnydd a gyflawnwyd gan y Bwrdd yn y deuddeg mis diwethaf wedi bod yn rhwystredig i mi, yn arbennig wrth geisio mynd i'r afael â'r defnydd o ddedfrydau tymor byr ar gyfer troseddwyr benywaidd, ac rwy'n edrych ymlaen at flwyddyn fwy cynhyrchiol er mwyn sicrhau gwelliant yn yr aneffeithlonrwydd presennol yn y system. Mae trafodaethau wedi dechrau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ddatganoli cyfrifoldebau dros feysydd penodol o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol, cam yr wyf yn ei gefnogi.

Rwy'n aelod o **Gymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CCHTh).** Mae **CCHTh** yn gorff cenedlaethol sy'n helpu Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i wneud y defnydd gorau o'u gallu i ddylanwadu ar lefel leol a chyflawni eu dyletswyddau statudol a'u blaenoriaethau plismona. Drwy rannu arfer gorau a nodi cyfleoedd i gydweithio, talu am wasanaethau ar y cyd, mae **CCHTh** yn cynorthwyo Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol. Rwy'n eistedd ar Fwrdd y CCHTh ac rwyf hefyd yn Ddirprwy Arweinydd ar gyfer y Portffolio Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau.

Mae **Eich Cymuned, Eich Dewis** yn brosiect sy'n cael ei reoli gan **PACT (Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned),** Gogledd Cymru, sy'n rhoi arian i grwpiau a sefydliadau cymunedol sydd wedi'i adfer gan droseddwyr. Mae arian sy'n cael ei adfer drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau ac o fy Nghronfa fel Comisiynydd yn cael ei roi i brosiectau cymunedol yng Ngogledd Cymru. Rhoddwyd cyfanswm o **£38,795** i 14 o grwpiau cymunedol y llynedd i ddarparu gwasanaethau megis gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng Cymuned Y Bermo (Gwarchod Bermo Watch); Grŵp Sgowtiaid 1af Mynydd Isaf; Clwb Pêl-droed Cynhwysiant Wrecsam; DangerPoint; a Grŵp Cadwraeth ac Amgylchedd Bae Colwyn.



YMWELWYR ANNIBYNNOL Â'R DDALFA

Mae gennyf dîm ymroddedig o **Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa,** sy'n fy nghynorthwyo i graffu ar waith darpariaeth y ddalfa ac ystafelloedd y ddalfa Heddlu Gogledd Cymru. Maent yn cynnal ymweliadau rheolaidd ac yn sicrhau bod llesiant y carcharorion yn cael ei hyrwyddo. Rwy'n craffu ar unrhyw faterion neu dueddiadau allweddol a ddaw i'r amlwg fel rhan o'r gwaith hwn ac yn eu trafod gyda'r Prif Gwnstabl. Cynhaliodd **Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa** 137 o ymweliadau heb eu cyhoeddi i'r ddalfa y llynedd a buont yn siarad â 403 o unigolion a gedwir yn y ddalfa. Rwy'n ddiolchgar am eu cefnogaeth a'u gwaith caled parhaus.

Yn 2017 ffurfiwyd partneriaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru ac Unedau Cŵn Heddlu Swydd Gaer, felly roedd yn ddarbodus i ni ymuno â chynllun ymweliadau llesiant cŵn llwyddiannus Swydd Gaer. Penodais **Ymwelydd Llesiant Cŵn** o Ogledd Cymru i ymuno â'r tîm yn Swydd Gaer a bydd penodiadau pellach yn cael eu gwneud yn sgil llwyddiant y bartneriaeth. Mae'r **Ymwelwyr Llesiant Cŵn** yn cynnal nifer o ymweliadau i feysydd hyfforddi a llety cŵn yr heddlu yn Swydd Gaer.

# Blwyddyn o gyflawni

Ebrill 2017 · Mai 2017 · Mehefin 2017 · Gorffennaf 2017 · Awst 2017 · Medi 2017 · Hydref 2017 · Tachwedd 2017 · Rhagfyr 2017 · Ionawr 2018 · Chwefror 2018 · Mawrth 2018

Rwy'n hynod falch o'r gwaith a'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni gan fy Swyddfa, Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid yn ystod 2017/18.

Isod rwyf yn rhestru enghreifftiau o ddim ond ychydig o'r pethau sydd wedi'u cyflawni, gyda'r nod cyffredinol o leihau'r bygythiad, risg a niwed i'r aelodau o'n cymdeithas y mae hynny'n effeithio fwyaf arnynt.

## Ebrill 2017

- Cyflogwyd ymgynghorydd i ddatblygu Polisi Gwerth Cymdeithasol ar gyfer fy swyddfa a Heddlu Gogledd Cymru. Y bwriad yw sicrhau cael gymaint ag y bo modd o werth cymdeithasol o'r gwasanaethau y byddwn yn eu comisiynu a'u bod yn dod â budd i'r economi leol. Mae'r polisi i'w weld ar fy ngwefan.
- Cyfeiriwyd 34,558 o faterion at y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr yn 2017/18. Rhoddwyd cefnogaeth i 23,788 o'r achosion hynny. O ran cefnogaeth mewn dyfnder, cafodd 2,789 o bobl unigol gefnogaeth uniongyrchol oddi wrth y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr yn ystod y flwyddyn, oedd yn golygu 32 o wirfoddolwyr, 489 o ymweliadau gan staff a gwirfoddolwyr a 3,892 o alwadau cefnogi i ddilyn ymlaen gan y tîm.
- Darparwyd arian hefyd o Gronfa'r Comisiynydd i recriwtio Gweithiwr Achos Caethwasiaeth Fodern i weithio yn y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr yn Llanelwy. Fi oedd y Comisiynydd cyntaf yng Nghymru, ac ymysg y rhai cyntaf yng Nghymru a Lloegr, i ddarparu cefnogaeth wedi'i neilltuo'n benodol i'r bobl hyn, sydd mewn sefyllfa mor fregus. Nododd llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Kevin Hyland, y Comisiynydd Gwrthgaethwasiaeth Annibynnol, bod rhoi arian ar gyfer y rôl hon yn gam cadarnhaol iawn ymlaen. Dywed y bydd y rôl yn 'anhygoel o fuddiol i ennill ymddiriedaeth a hyder y rhai sy'n dioddef o gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl, ac yn mynd ymhell i dynnu sylw at y drosedd hon a'i thaclo, i ddiogelu'r rhai sy'n dioddef ohoni ac, yn bwysig, yn dod â'r troseddwyr i gyfiawnder a chymryd elw eu troseddau oddi arnynt".
- Cymeradwywyd cynllun ar gyfer Teuluoedd gyda Rhieni yn y Carchar. Fe ddechreuodd y cynllun hwn yn Swyddfa'r Comisiynydd ac rwy'n gwneud cyfraniad ariannol tuag at gost y prosiect.




CHTh ARFON JONES GYDA SWYDDOG CYMORTH CAETHWASIAETH FODERN CYNTAF CYMRU MATTHEW HAZLEWOOD YNG NGHANOLFAN CYMORTH DIODDEFWYR GOGLEDD CYMRU.

Ebrill 2017 · Mai 2017 · Mehefin 2017 · Gorffennaf 2017 · Awst 2017 · Medi 2017 · October 2017 · Tachwedd 2017 · Rhagfyr 2017 · Ionawr 2018 · Chwefror 2018 · Mawrth 2018

## Mai 2017

- Noddwyd cynhadledd arbennig ar reoleiddio cyffuriau yn Wrecsam. Roedd wedi'i drefnu gan 'Anyone's Child', rhwydwaith rhyngwladol o deuluoedd sy'n dweud bod y cyfreithiau presennol ar gyffuriau wedi difetha eu bywydau, ac sydd rŵan yn ymgyrchu i'w newid. Daeth cynulleidfa lawn o 70 o bobl i'r digwyddiad hwn, a'r nod oedd hyrwyddo trafodaeth am beth allai ffordd newydd o drin cyffuriau ei olygu i deuluoedd a chymunedau Wrecsam. Roedd sesiwn fywiog o gwestiynau ac atebion yn dilyn yr areithiau, gyda'r mwyafrif helaeth o'r gynulleidfa'n cefnogi'r syniad o reoleiddio cyffuriau.
- Roedd fy swyddfa yn aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Cynllun Darparu ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).
- Parhaodd y Tîm Troseddau Gwledig i arwain y ffordd mewn mynd i'r afael ac atal troseddau gwledig yng Ngogledd Cymru.



MARCHNAD FFERMWYR DOLGELLAU

## Mehefin 2017

- Cafodd ap or enw 'Point' Heddlu Gogledd Cymru ei ryddhau ar draws gwasanaeth yr heddlu ym Mehefin 2017. Mae'n cynnwys, ymysg pethau eraill: gallu chwilio trwy system trosedd ac amlder digwyddiadau'r gwasanaeth (RMS), edrych ar luniau o bobl, diweddaru cofnodion ymchwiliadau a digwyddiadau, edrych ar gofnodion arestio a phresenoldeb gwirfoddol. Bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach i'w wneud yn fwy ymarferol i'w ddefnyddio.
- Cafodd gwaith Tîm Ymchwilio Ar-Lein yr Heddlu (POLIT) yn Heddlu Gogledd Cymru sylw arbennig ar raglen 'Y Ditectif' ar S4C.
- Dywedodd Mr Kevin Hyland, y Comisiynydd Gwrthgaethwasiaeth Annibynnol ei bod yn amlwg bod Gogledd Cymru'n cymryd yr arweiniad o ran Caethwasiaeth Fodern. Roedd hynny i'w weld pan wnaeth hyfforddwr o Heddlu Gogledd Cymru ddarparu hyfforddiant i dîm Mr Hyland, ar ffurf hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn grŵp cyfoedion o heddluoedd o wahanol lefydd ar draws y Deyrnas Unedig.

## Gorffennaf 2017

- Cefais gyfarfod gyda Nazir Afzal, Ymgynghorydd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar VAWDASV a Dr Cerys Miles, seicolegydd fforensig sy'n gweithio fel Pennaeth Polisi Troseddwyr ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod a Thrais Domestig a Rhywiol ar draws Cymru. Roedd yn gyfle i drafod sut gallwn symud ymlaen ar draws Gogledd Cymru o ran ymyrryd mewn perthynas â throseddwyr.
- Cyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2017 na fyddai cyfyngiadau teithio o hynny ymlaen ar gefnogwyr

wrth fynd i gemau pêl-droed rhwng Wrecsam a Chaer, trefn oedd yn cael ei galw'n 'swigen'.

- Digwyddiad digartrefedd – cynorthwyais i godi arian ar gyfer elusennau lleol trwy dreulio diwrnod ar strydoedd Wrecsam.



- Lansiodd Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru ymgyrch i geisio atal troseddau yn erbyn pobl fyddar. Fe drefnodd y gymdeithas gyfres o Weithdai Atal Trosedd, gan ddefnyddio grant o £5,000 o gronfa Eich Cymuned, Eich Dewis.

## Awst 2017

- Cwblhaodd un ar bymtheg o gwnstabliaid yr heddlu eu hyfforddiant dechreuol, ar ôl cael eu hyfforddi yn Nolgellau. Roedd hynny er mwyn recriwtio yn bennaf o'r ardal leol, lle mae wedi bod yn anodd yn y gorffennol i recriwtio pobl. Mae pedwar ar ddeg o'r rhain yn gweithio yn ardal y Gorllewin erbyn hyn. Hefyd, o Ebrill 2017 i Fawrth 2018 daeth cyfanswm o 134 o swyddogion newydd i ymuno gyda Heddlu Gogledd Cymru a dechrau hyfforddi.
- Lansiodd Heddlu Gogledd Cymru gerdyn wedi'i gynllunio i wneud pobl fregus yn fwy ymwybodol o'u diogelwch personol eu hunain, er mwyn annog adrodd am droseddau – yn enwedig troseddau casineb – ac i ofyn am gymorth os byddant angen. Cafodd ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern yn Awst 2017. Gall hwn, cerdyn Cadw Cymru'n Ddiogel, gael ei gario gan unrhyw un sydd ag anabledd dysgu, dementia, problemau iechyd meddwl neu angen cyfathrebu.
- Lansiwyd Eich Cymuned, Eich Dewis 2017/18.

## Medi 2017

- Mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi gweld ei bod yn golled bod Gwasanaeth Cyfweliad Dychwelyd Adref Barnardos wedi dod i ben. Roeddem o'r farn bod hwn yn wasanaeth amhrisiadwy i ganfod lle'r oedd perygl o gamfanteisio rhywiol ar blant. Roeddem yn credu, heb y gwasanaeth hwn, y gallai llai o droseddau felly yn erbyn plant gael eu darganfod. O ganlyniad i'n pryderon, mae ein cydweithwyr mewn awdurdodau lleol yn awr wedi cydnabod hyn a chytuno i adolygu'r ddarpariaeth trwy gytuno ar brotocol rhanbarthol. Trwy hynny, byddant oll yn cytuno i gymryd rhan mewn darpariaeth arbennig ar gyfer anghenion lleol, i ateb gofynion ardaloedd Awdurdod Lleol. Mae'n cael ei gydnabod gan bawb bod perygl i gamfanteisio rhywiol ar blant ddigwydd yng Ngogledd Cymru, ac mae ewyllys i ateb y bygythiad hwnnw mewn partneriaeth leol gyda'r heddlu.
- Mynychais Ddiwrnod Coffa Cenedlaethol yr Heddlu ym mis Medi.
- Penodwyd Gweithiwr Achos Caethwasiaeth Fodern i'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr, wedi'i ariannu gan Gronfa'r Comisiynydd.

## Hydref 2017

- Dechreuwyd defnyddio gweision y glas ar gyfer gwaith yr heddlu am y tro cyntaf yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi hyfforddi 15 o beilotiaid, rhai'n Gwnstabliaid a rhai'n Swyddogion Cefnogi Cymuned, wedi'u dosbarthu'n wastad ar draws ardal y gwasanaeth. Dechreuwyd eu defnyddio ar 19 Hydref 2017 a hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr mae ein peilotiaid wedi'u hedfan 38 o weithiau.



Ebrill 2017 · Mai 2017 · Mehefin 2017 · Gorffennaf 2017 · Awst 2017 · Medi 2017 · Hydref 2017 · Tachwedd 2017 · Rhagfyr 2017 · Ionawr 2018 · Chwefror 2018 · Mawrth 2018

## Hydref 2017

- Ar 26 Hydref 2017 llywyddais gynhadledd ar gaethwasiaeth fodern a deall y cyfrifoldebau.
- Noddwyd digwyddiad Adolygiad Diogelwch Cymunedol ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd y rhai'n bresennol yno'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, y trydydd sector a gwasanaethau wedi'u comisiynu. Roedd y digwyddiad hwn yn cyd-fynd gyda'r gwaith gan fy swyddfa i adolygu sut mae fy Nghronfa Trosedd ac Anhrefn yn cael ei ddosbarthu i bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar draws y rhanbarth. O ganlyniad i'r adolygiad fe benderfynwyd y bydd yr arian hwn yn mynd fel grant, i bob corff sydd â diddordeb mewn cymryd rhan gael gwneud cais amdano, yn hytrach na'i fod yn mynd yn awtomatig i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Prif nod yr arian hwn yw ymyrryd yn gynnar er mwyn atal trosedd ac anhrefn.
- Dosbarthu Grant Llywodraeth Cymru o £4,000 ymysg prosiectau yn yr ardal ac i hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb.

## Tachwedd 2017

- Dechreuodd Uned Amrywiaeth Heddlu Gogledd Cymru weithredu ar 1 Tachwedd, ac mae wedi bod yn cymryd rhan mewn dylunio'r templed Asesu Bregusrwydd. Mae hwn yn sicrhau bod POB un sy'n dioddef oddi wrth drosedd yn cael eu hasesu i weld pa mor fregus ydynt a pha gyfleoedd sydd i'w gweld ar gyfer ateb problemau. Mae'r fframwaith yn gofyn yn benodol i'r swyddog ystyried y posibilrwydd o drosedd casineb anabledd, ac os gwelir bod hynny wedi digwydd, cysylltu gyda'r blwch post Cyswllt Amrywiaeth. Bydd hynny'n sicrhau bod pobl fregus yn cael eu darganfod mewn ffordd briodol a'u cyfeirio at unrhyw gefnogaeth fyddant ei hangen.
- Lansiwyd Polisi Gwerth Cymdeithasol gennyf ym mis Tachwedd 2017. Fi yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf yng Nghymru i ddechrau ar bolisi o'r fath. Nod hwn yw dylanwadu ar sut mae fy swyddfa a Heddlu Gogledd Cymru'n prynu gwasanaethau i mewn. Byddai hynny'n dilyn trefn nad yw hi o anghenraid yr un mwyaf rhad, ond sy'n rhoi arian ychwanegol i'r economi leol ac yn rhoi hwb i gyflogaeth a chyfleoedd i wirfoddoli.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a BIPBC i weithio ar gomisiynu ar y cyd ar gyfer Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol ac ar Ymyriadau Troseddwyr ar draws y rhanbarth. Cymerais ran weithredol yn natblygiad Strategaeth Ranbarthol a Strategaeth Gomisiynu Gogledd Cymru ar gyfer Trais yn Erbyn Merched, Asesiad Anghenion Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol. Fy Mhrif Weithredwr yw'r Cadeirydd ar hyn o bryd ar y Bwrdd VAWDASV.
- Enillodd fy swyddfa Wobr Tryloywder CoPaCC am yr ail flwyddyn yn olynol am ddarparu'r holl wybodaeth statudol yn agored a thryloyw.



CHTh ARFON JONES GYDA'I DÎM A GWOBR TRYLOYWDER CoPaCC

## Rhagfyr 2017

- Cyhoeddodd HMICFRS eu hadroddiad arolygu "Cyfiawnhad" am 2017. Barnwyd bod Heddlu Gogledd Cymru'n "Dda" yn gyffredinol.
- Yn Rhagfyr 2017 comisiynodd y Prif Gwnstabl a minnau arolwg o hyder y cyhoedd ymysg preswylwyr Gogledd Cymru. Hwn oedd y pedwerydd arolwg blynyddol, yn rhoi'r cyfle i 1,500 o breswylwyr ar draws Gogledd Cymru roi eu barn ar y gwasanaethau mae Heddlu Gogledd Cymru'n eu darparu a phlismona yn gyffredinol, a dweud sut maent yn teimlo o ran hyder a diogelwch. Dyma rai o'r canlyniadau:
    - Roedd gan y mwyafrif (91%) o breswylwyr hyder yn Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y byddai'r heddlu'n eu trin nhw gyda pharch pe byddent yn dod i gysylltiad gyda nhw am unrhyw reswm (92%) a bod yr heddlu'n trin pawb yn deg waeth bynnag pwy oeddent (80%).
    - Roedd dros hanner (55%) y preswylwyr yn teimlo mai lefel isel o adnoddau sydd gan yr heddlu yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd, ac mae hynny'n gynnydd sylweddol.
    - Y rhan fwyaf o breswylwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol hwy ar y stryd yn ystod y dydd (96%). Mae'r ffigwr yn disgyn i ychydig dros dri chwarter (77%) pan ofynnwyd i breswylwyr pa mor ddiogel roeddent yn teimlo yn y nos. Dywedodd 89% eu bod yn teimlo'n ddiogel oddi wrth drosedd ac anhrefn yn byw yng Ngogledd Cymru'n gyffredinol.
- Fel cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Cymru, galwais Symposiwm ar Leihau Carcharu Merched, er mwyn gyrru ymlaen gyda nifer o argymhellion oddi wrth yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. Fe arweiniodd hyn at ddechrau grŵp gorchwyl a gorffen sydd wedi cyfarfod bedair gwaith. Mae wedi bod yn araf wrth symud hyn ymlaen, ac rwy'n edrych ymlaen at gael canlyniadau pendant yn dod i'r golwg yn ystod y 12 mis nesaf.

## Ionawr 2018

- Cafodd Rhaglen Gwella Gweithrediadau ei chomisiynu yn Ionawr 2018 gan Brif Swyddogion a phenodwyd y Prif Uwcharolygydd Dros Dro Alex Goss i arwain y rhaglen waith. Nod y rhaglen oedd gwella effeithlonrwydd y sefydliad wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu trwy gyd-drefnu darparu gwasanaethau.
- Sefydlwyd cysylltiad byw gyda'r gwasanaeth llysoedd. Mae rhai pobl yn ei chael yn anodd rhoi tystiolaeth mewn llys. Gall hynny fod hyd yn oed yn waeth i bobl fregus sy'n dyst neu wedi dioddef trosedd yn eu herbyn. Bydd y Llys yn ceisio lleddfu rywfaint ar eu pryderon trwy gael 'mesurau arbennig'. Bydd y rheiny'n cael eu rhoi ymlaen gan y swyddog sy'n delio gyda'r tyst, gyda chefnogaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron ac wedyn eu cyflwyno i'r Barnwr i gael eu cymeradwyo.
- Gweithiodd fy swyddfa gyda VAWDASV i sicrhau bod Cynllun Comisiynu VAWDASV am 2018-19 yn gyson gyda fy mlaenoriaethau Heddlu a Throsedd a Strategaeth VAWDASV. Trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, gydag awdurdodau sydd heb eu datganoli a rhai wedi'u datganoli, byddwn yn gallu cefnogi arfer a syniadau sy'n defnyddio dulliau newydd, rhoi gwerth am arian a chefnogi gwasanaethau sydd wedi bodoli ers cryn amser. Bydd hyn yn ein galluogi ni, trwy gydweithio, i ddarparu pecyn cyfan o gefnogaeth i ddioddefwyr, i bobl sydd wedi mynd trwy drafferthion a'u teuluoedd.

## Chwefror 2018

- Yn gyffredinol, mae gennym tua 100 o Gadetiaid yr heddlu, fydd yn cynyddu i o leiaf 150 erbyn mis Medi. Mae'r Cadetiaid wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau ar draws y gwasanaeth.
- Lansiwyd Cynllun Ymyrraeth Gynnar newydd, wedi'i anelu'n benodol at gefnogi prosiectau ymyrraeth gynnar fydd yn ychwanegu gwerth at yr agenda Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Rwy'n cydnabod yn bendant bod gan yr heddlu ran hollbwysig mewn darparu ymyrraeth gynnar yn lleol. Mae'r heddlu mewn sefyllfa unigryw i ganfod plant, teuluoedd neu unigolion sydd angen cefnogaeth. Mae ymyrraeth gynnar o'r math yma angen buddsoddiadau bychain i fynd at wraidd beth bynnag sy'n achosi helbulon, yn hytrach na'r costau llawer uwch o ddelio gyda'r effeithiau ymhellach ymlaen.

Ebrill 2017 Mai 2017 Mehefin 2017 Gorffennaf 2017 Awst 2017 Medi 2017 Hydref 2017 Tachwedd 2017 Rhagfyr 2017 Ionawr 2018 Chwefror 2018 Mawrth 2018

## Chwefror 2018

- Mae fy swyddfa wedi bod yn ymchwilio i gynlluniau dargyfeirio er mwyn mynd i'r afael ag effaith camddefnyddio sylweddau a throseddu cyfundrefnol ar ein cymunedau lleol ni. Os na fydd y materion sy'n achosi troseddu i ddechrau'n cael eu hateb, mae'n annhebyg y bydd rywun sy'n troseddu dro ar ôl tro yn rhoi'r gorau i droseddu ar ôl eu cael yn euog mewn llys. Rwyf wedi cael cyflwyniadau oddi wrth Heddlu Durham ar eu rhaglen Checkpoint, a Heddlu Avon a Gwlad yr Haf ar Raglen Addysg Bryste. Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru i ddatblygu'r math o gynllun dargyfeirio sydd fwyaf addas ar gyfer Gogledd Cymru.

## Mawrth 2018

- Cafodd Heddlu Gwirfoddol Gogledd Cymru flwyddyn dda iawn. Maent wedi parhau i recriwtio swyddogion newydd ac, am y tro cyntaf, mae'r sefydliad yn dros 200 o swyddogion, mewn gorsafoedd a rolau arbennig ar draws ardal Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r twf yma'n groes i'r duedd genedlaethol, gyda nifer o Heddluoedd yn cael gostyngiad yn nifer eu cwnstabliaid arbennig.
- Yn 2017, llwyddodd 40 o swyddogion o'r Heddlu Gwirfoddol gyda cheisiadau i ymuno â'r Gwasanaeth arferol, ac mae hyn yn cael ei weld fel clod anferth i ansawdd y swyddogion yn heddlu gwirfoddol Gogledd Cymru a'r hyfforddiant fyddant yn ei gael.
- Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cydweithio gyda TITAN, sef Uned Ranbarthol Troseddau Gogledd Orllewin Lloegr, a chynorthwyo i gynnal digwyddiad ymwybyddiaeth yn Wrecsam, i dynnu sylw at faterion Llinellau Sirol. Fe gynhaliwyd y digwyddiad hwn mewn dwy ystafell agosaf at ei gilydd. Yno roedd actorion yn ail greu sefyllfaoedd roedd yr heddlu wedi'u gweld o droseddwyr yn cymryd mantais o bobl fregus, yn eu gorfodi i storio cyffuriau ac arfau, ac yn defnyddio'u cartrefi fel lle i werthu cyffuriau.
- Cyhoeddodd HMICFRS eu hadroddiad arolygu "Effeithlonrwydd" am 2017. Barnwyd bod Heddlu Gogledd Cymru yn "Dda" yn gyffredinol. Roedd yr arolygiad hwn yn edrych ar:
- Ymchwilio i droseddu a lleihau aildroseddu (ennill graddfa "Da")
- Diogelu pobl fregus (ennill graddfa "Da")
- Galluoedd arbenigol (ni chaiff y rhan hon ei graddio)
- Rhoddodd aelod o fy nhîm, ynghyd â'r Gweithiwr Cefnogi Caethwasiaeth Fodern o'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr, gyflwyniad i nifer o aelodau etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae fy staff yn parhau i chwilio am gyfleoedd i roi'r cyflwyniad hwn i aelodau etholedig eraill ym mhob rhan o Ogledd Cymru.
- Yn ystod ymweliad â Phentref Peryglon, cefais wybod am y peryglon i blant oddi wrth yr ap cyfryngau cymdeithasol Musical.ly. O ganlyniad i hynny fe wnes i annog rhieni, trwy'r cyfryngau lleol, i gynyddu gosodiadau diogelwch a phreifatrwydd ffonau symudol ac apiau eu plant. Rwyf hefyd wedi rhybuddio rhieni a gwarcheidwaid am y gosodiadau lleoliad ar ap Snapchat. Mae'r gwasanaethau lleoliad ar ffonau'n gallu caniatáu i ddilynwyr weld yn union lle mae'r unigolyn.
- Aeth cynrychiolwyr o fy swyddfa i Gynhadledd Sefydliad Lucy Faithfull. Nod y gynhadledd oedd annog gweithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau brys, cynghorau sir, addysg a chyrff trydydd sector i leihau'r bygythiad i'n cymunedau lleol oddi wrth gamdriniaeth rywiol plant.

# Cyflawni Rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Fy nghyfrifoldebau craidd fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw:

1. Sicrhau cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer Gogledd Cymru
2. Dal y Prif Gwnstabl yn atebol am weithredu ei swyddogaethau
3. Dod â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol at ei gilydd
4. Cydweithio gyda chomisiynwyr heddlu a throsedd eraill a ffurfio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd heddluoedd

## Heddlu effeithlon ac effeithiol

Ers i mi ddod yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn 2016, rwyf wedi ymdrechu i sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol trwy ddefnyddio'r strategaeth sydd yn y Cynllun Heddlu a Throsedd 2017 – 2021 ac, yn benodol, trwy gyfrwng ei phum blaenoriaeth strategol heddlu a throsedd:

- Cam-drin Domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Troseddu Cyfundrefnol
- Cam-drin rhywiol (yn cynnwys camfanteisio ar blant yn rhywiol)
- Darparu Cymdogaethau Diogelach

Er mai dim ond ar ddiwedd fy nhymor y bydd modd asesu'n gywir a ydw i wedi cyflawni'r swyddogaeth yma, bydd effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Gwasanaeth yn cael ei arolygu bob blwyddyn gan **HMICFRS** yn yr asesiad PEEL.




Eleni oedd y pedwerydd asesiad PEEL ('police effectiveness, efficiency and legitimacy') gan HMICFRS o Heddlu Gogledd Cymru. Mae PEEL wedi'i drefnu i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am sut mae eu gwasanaeth heddlu lleol yn perfformio mewn nifer o feysydd pwysig, fel bod modd cymharu ar draws Cymru a Lloegr, o un flwyddyn i'r llall.

Eleni, fe gafodd Heddlu Gogledd Cymru'r asesiad a ganlyn.

Y graddau y mae'r gwasanaeth yn **effeithiol** at am gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd - **da**.

Dywedodd HMICFRS bod

"Mae Heddlu Gogledd Cymru'n dda am gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd, ac mae wedi cadw at lefel sefydlog o gyflawniad ers ein harolygiad effeithiolrwydd yn 2016".

Y graddau mae'r gwasanaeth yn **effeithlon** am gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd - **angen gwella.**

Dywedodd HMICFRS

"Bernir bod Heddlu Gogledd Cymru angen gwella o ran effeithlonrwydd cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Nid yw ein barn gyffredinol yn cyd-fynd gydag un y flwyddyn ddiwethaf, pan farnwyd bod y gwasanaeth yn dda am effeithlonrwydd yn gyffredinol. Mae'r gwasanaeth wedi cynnal dealltwriaeth dda o'r galw cyfredol; bernir bod angen gwella'r defnydd o adnoddau i reoli galw; a bernir bod angen gwella'r cynllunio ar gyfer galw i'r dyfodol".

Roedd yn siomedig iawn cael yr asesiad hwn, ac ysgrifennais at HMICFRS i gydnabod, er bod lle i wella, fy mod yn teimlo bod y canfyddiadau cadarnhaol yn eu hadroddiad yn gryfach na'r rhai negyddol. Roeddwn felly'n teimlo bod y raddfa a roddwyd i Heddlu Gogledd Cymru yn ddiangen. Rwyf hefyd wedi mynegi fy anfodlonrwydd gyda faint o arolygon mae'r Gwasanaeth wedi gofod mynd trwyddynt a'r llwyth gwaith sydd wedi'i greu i'r Gwasanaeth wrth baratoi ar gyfer arolygiadau ac ymateb iddynt, ar adeg o fwy o alw nag erioed ar yr heddlu.

Y graddau mae'r gwasanaeth yn **gweithredu'n gywir** wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd – **da**.

Dywedodd HMICFRS

"Bernir bod Heddlu Gogledd Cymru yn dda am ba mor gywir mae'n gweithredu wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Ar gyfer y meysydd o weithrediad cywir roeddem ni'n edrych arnynt eleni, mae ein barn yn gyffredinol yn fwy cadarnhaol na'r flwyddyn ddiwethaf, pan oeddem ni'n barnu bod y gwasanaeth angen gwella. Mae'r gwasanaeth yn cael ei farnu o ran pa mor dda neu beidio mae'n sicrhau bod ei weithlu'n ymddwyn yn egwyddorol a chyfreithlon a pha mor dda yw am drin ei weithlu gyda thegwch a pharch. Mae'n cael ei farnu bod angen gwella mewn rhai agweddau o'r ffordd mae'n trin yr holl bobl mae'n eu gwasanaethu gyda thegwch a pharch".

Mae'r ffigyrau a gyhoeddwyd gan **Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr** ar gyfer y flwyddyn hyd at Ragfyr 2017 yn gosod Heddlu Gogledd Cymru'n uwch na'r mwyafrif o wasanaethau heddlu yn y rhan fwyaf o gategorïau'r adroddiad.

Mae'r arolwg yn datgelu bod 89.1% yn credu bod y swyddogion yn trin pobl gyda pharch, a mynegodd 80.2% hyder yn yr heddlu.

Dywedodd bron i 77% o'r rhai a gyfwelwyd bod gan y gwasanaeth ddealltwriaeth dda o'n cymunedau ni. Dywedodd 74.6% bod swyddogion yn trin pobl yn deg wrth ddelio gyda'r cyhoedd, a dywedodd y

rhan fwyaf bod y gwasanaeth yn gwneud gwaith ardderchog neu dda.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn datgelu bod Heddlu Gogledd Cymru'n ymdrin yn dda gyda phryderon pobl a'u bod yn gweld ein swyddogion fel rhai mae modd dibynnu arnynt.

Roedd barn pobl ar faterion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, defnyddio cyffuriau, fandaliaeth ac ymddygiad stwrllyd hefyd wedi gwella yn ystod y cyfnod hwn.

Rwy'n falch o ganfyddiadau'r Arolwg Troseddu; rwy'n credu bod yr adborth oddi wrth y bobl byddwn ni'n eu gwasanaethu'n dangos pa mor dda mae'r gwasanaeth yn cyflawni mewn gwirionedd o dan amgylchiadau heriol iawn.

## Dal y Prif Gwnstabl yn atebol

Y brif ffordd y byddaf yn dal y Prif Gwnstabl yn atebol yn parhau i fod yw trwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol rwy'n gadeirydd arno, a'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn aelodau ohono.

Bydd y Bwrdd hwn yn cyfarfod yn rheolaidd a byddaf yn cael adroddiadau ar nifer o agweddau o swyddogaethau'r Prif Gwnstabl. Mae'r rheiny'n cynnwys ystadegau troseddau am y cyfnod yn union cyn y cyfarfod, y crynodeb misol o berfformiad (sy'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad yn lleol), adroddiadau ariannol, canlyniadau arolygon o swyddogion a staff, a bodlonrwydd y cyhoedd. Rwyf hefyd wedi gofyn i'r Bwrdd hwn dderbyn diweddariadau yn rheolaidd am Ddefnyddio Grym, Care not Custody, Adnoddau Dynol a datblygiad cynaliadwy.

Bydd craffu pellach ar y Gwasanaeth yn digwydd yn fy Mwrdd Craffu Safonau Proffesiynol, y Panel Craffu Aml-asiantaeth, Cyd-fwrdd Llywodraethu, Panel Ymwelwyr Annibynnol y Ddalfa ac amrywiaeth o waith samplo 'dip'. Rwyf wedi rhoi mwy o wybodaeth ar fy ngwefan am fy rôl craffu a'r gefnogaeth rwyf wedi'i chael.

Bydd y Pwyllgor Craffu ar y Cyd hefyd yn rhoi sicrwydd annibynnol ar ba mor ddigonol yw ein fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol a pha mor ddibynadwy yw'r adrodd ariannol a'r prosesau llywodraethiant blynyddol. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi penodi Pwyllgor Archwilio newydd yn 2017/18 ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gael perthynas waith gynhyrchiol gyda hwynt a chael budd o'r profiad a'r arbenigedd sydd ganddynt i'w gyfrannu i'r rôl.

Mae llawer o drafodaethau, ymweliadau a heriau'n digwydd bob dydd i sicrhau bod y Gwasanaeth a phartneriaid eraill yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau heddlu allweddol sydd yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

## Dod â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol at ei gilydd

Rwy'n credu'n bendant mewn gweithio mewn partneriaeth ac rwy'n gwbl gefnogol i'r penderfyniad a wnaed gan fy rhagflaenydd i roi gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ar frig yr agenda. Mae'n amlwg i mi y bydd yn rhaid cael cefnogaeth ein partneriaid er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau strategol sydd yn fy Nghynllun – ni all yr heddlu ymdrin â'r materion hynny ar wahân i bawb arall.

Rwy'n aelod o'r pwyllgorau a byrddau Cymru Gyfan canlynol:-

- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru Gyfan
- Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol
- Bwrdd Rhanbarthol Trais yn Erbyn Merched a Genethod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- Bwrdd Cenedlaethol Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod)
- Grŵp Plismona Cymru Gyfan

Trwy'r fforymau hyn, gallaf weld cyrraedd yr amcan o gael partneriaethau effeithiol a chanfod cyfleoedd lle gallwn wella sut byddwn ni'n gweithio efo'n gilydd, rhannu gwybodaeth berthnasol a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau byddwn yn eu darparu i'r cyhoedd.

Mae dyletswydd arnaf i sicrhau bod y *"cyrff cyfiawnder troseddol sy'n gweithredu swyddogaethau fel cyfiawnder troseddol yn yr ardal heddlu honno"*, yn darparu trefn o gyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, rwy'n cadeirio **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru.** Bydd hwn yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cael ei weinyddu gan fy swyddfa.

Mae aelodaeth y Bwrdd hwn yn cynnwys y Prif Gwnstabl, Pennaeth Gweinyddiaeth yr Adran Gyfiawnder a chynrychiolwyr o Wasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a Thimau Troseddu Ieuenctid.

Pwrpas Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yw dod â'r holl asiantaethau a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol at ei gilydd i gyflawni gweledigaeth ar gyfer cyfiawnder yng Ngogledd Cymru.

Fy ngweledigaeth ar gyfer y Bwrdd yw cael y cyfleoedd gorau posibl i bobl Gogledd Cymru fod yn ddiogelach, a chael hyder i ymgysylltu gyda'r Drefn Cyfiawnder Troseddol pan fydd rhaid gwneud hynny.

Yng Ngogledd Cymru, mae gennym bedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd wedi dod yn weithredol yng Nghymru trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Pwrpas y Byrddau hyn yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd trwy gryfhau gweithio ar y cyd ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae pob un o'r byrddau wedi cwblhau asesiad o anghenion ac wedi cynhyrchu cynllun sy'n datgan ei amcanion a'r camau fydd yn eu cymryd i'w hateb. Rwy'n falch, o ran cael cymunedau diogelach, bod cynlluniau pob un o'r Byrddau'n cefnogi cyflawni fy mlaenoriaethau strategol.

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfiawnder Cymdeithasol 2011 wedi dod â chyfrifoldeb i mi a'r awdurdodau cyfrifol mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gydweithio gyda'n gilydd wrth gyflawni ein swyddogaethau gwahanol. Yn y gorffennol, roedd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cael arian oddi wrth fy Nghronfa Lleihau Trosedd ac Anhrefn i ateb problemau lleol. Newidiwyd y broses hon gennyf yn 2017/18.

Yn fy Adroddiad Blynyddol y llynedd, addewais edrych ar gyfleoedd ar gyfer cyd-gomisiynu a chomisiynu uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau gyda phartneriaid, er mwyn lleihau trosedd ac anhrefn a darparu gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o droseddau. Rwy'n falch o adrodd bod y broses o gomisiynu gwasanaethau wedi'i newid a'i bod yn llawer mwy effeithlon bellach. Nid fy ngeiriau i yw'r rhain, ond yn hytrach asesiad gan y rhai wnaeth gais am arian trwy fy Nghronfa Ymyrraeth Gynnar. Rwyf wedi trefnu i £100,000 fod ar gael bob blwyddyn am y 3 blynedd nesaf (yn dechrau yn 2018/19) i'w ddefnyddio i ariannu amrywiaeth o brosiectau, yn canolbwyntio'n bennaf ar ymyrraeth gynnar yng nghymunedau Gogledd Cymru. Mae'r grant ar gael ar draws Gogledd Cymru ac yn annog ceisiadau cydweithredol rhwng partneriaid. Bydd croeso arbennig i brosiectau sy'n cefnogi ac yn ychwanegu gwerth at y rhaglen Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod.

Er bod y broses o gomisiynu gwasanaethau wedi newid, gallaf gadarnhau nad oes dim gostyngiad yn y swm o arian yr wyf wedi'i ddosbarthu. Gan mai yn 2018/19 y dechreuodd y Gronfa hon, byddaf yn darparu mwy o wybodaeth yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Rwyf eisiau cymryd y cyfle hwn i roi clod am eu cydweithrediad i'r holl bartneriaid, ac rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r Gwasanaeth Prawf, Cwmni Adsefydlu Cymunedol [CRC] a'r Trydydd Sector am weithio gyda mi a Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau mewn ffordd effeithiol i'r rhai sydd mewn mwyaf o angen, yn enwedig pobl sy'n dioddef oddi wrth droseddau, a thystion.



## Cydweithredu gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill

Mae cydweithredu gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill i lunio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd heddluoedd yn swyddogaeth bwysig ac yn cyfrannu at gyflawni'r Gofyniad Plismona Strategol. Rwyf wedi ymdrechu i gyflawni'r swyddogaeth yma trwy gael cyfarfodydd rheolaidd gyda Chomisiynwyr eraill a'u Prif Gwnstabliaid i drafod pethau sydd o ddiddordeb i ni oll, a materion ar draws ffiniau yn benodol. Rwyf hefyd yn aelod o Fwrdd Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.

Byddaf yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd Gogledd Orllewin Lloegr. Mae'r cydweithio rhwng Heddlu Gogledd Cymru a heddluoedd Gogledd Orllewin Lloegr yn arbennig o bwysig ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Mae hynny am ein bod ni mor agos yn ddaearyddol, gan olygu ein bod ni'n rhannu blaenoriaethau ar gyfer taclo troseddu difrifol a throseddu cyfundrefnol, yn ogystal â chydweithredu ar faterion gweithredol gwasanaeth yr heddlu.

Mae canlyniadau'r Uned Ranbarthol Troseddu Cyfundrefnol (Titan) yn parhau i wneud argraff dda arnaf. Mae hon yn enghraifft arbennig o gydweithio i gael deilliannau mae modd eu gweld yn bendant, sy'n cadw cymunedau Gogledd Cymru'n ddiogel. Mae felly'n achosi pryder mawr bod mesurau llymder yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi gadael Titan, ac yn wir pob Uned debyg, yn wynebu heriau ariannol sylweddol sy'n fygythiad i ddiogelwch ein cymunedau.

Yn gwbl wahanol i'r canlyniadau arbennig o dda gyda Gogledd Orllewin Lloegr, rwyf wedi'i chael yn hynod o rwystredig dros y deuddeg mis diwethaf i gydweithio ar sail Cymru gyfan. Rwyf wedi mynegi pryder nad oes gennym, fel pedwar Comisiynydd, fynediad cyfartal at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru ac yn San Steffan. Rwy'n edrych ymlaen at gael agwedd fwy hyblyg, pragmataidd a cholegol tuag at blismona yng Nghymru.




Ar sail genedlaethol, mae pob gwasanaeth heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi cydweithio ar gael Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, Gwasanaeth Gwybodaeth Troseddu Cenedlaethol, Uned Genedlaethol Troseddu Bywyd Gwyllt, Uned Genedlaethol Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data'r Heddlu a'r Uned Genedlaethol Gwybodaeth Balisteg. Yn fwy lleol, mae gennym bellach Raglen Gydweithredu sy'n defnyddio NICHE (Swydd Caer, Glannau Mersi a Gogledd Cymru) ac Uned Gynnau a Chŵn gyda Heddlu Swydd Caer.

# Blwyddyn o ymgysylltu – golwg gryno

Rwy'n cynrychioli pob un o'n cymunedau ar draws Gogledd Cymru o ran sicrhau bod eu gwasanaeth plismona mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd. Rwyf felly'n rhoi pwyslais mawr ar fynd allan o'r swyddfa a chyfarfod y cyhoedd bob tro y bydd cyfle. Er mwyn casglu gwybodaeth, rhaid i mi fynd i ddigwyddiadau, cyfarfodydd a chynadleddau a chyfarfod aelodau o gymunedau bywiog ac amrywiol Gogledd Cymru. Felly dim ond golwg gyflym sydd yma ar rai o'r digwyddiadau yr wyf wedi'u croesawu, eu cynnal, neu eu mynychu yn ystod 2017/18.




## Ynys Môn

- Mynychu'r Eisteddfod ym Môn am yr wythnos
- Ymweld â Mudiad Adfer Môn a Gwynedd (AGRO), Llangefni
- Primin Môn
- Diwrnod Hwyl Cymunedol i Arddangos Pêl-droed, Amlwch

## Gwynedd

- Ymweld â Phrosiect Kaleidoscope ac ARCH Initiatives, Bangor
- Agor diwrnod agored RASSAC Gogledd Cymru
- Ymweld â Chanolfan Llinell Gymorth Penygroes gyda Sian Gwenllian AC
- Cyfarfod gydag Undeb Amaethwyr Cymru, sy'n hyrwyddo buddiannau ei aelodau trwy weithio gyda a dylanwadu ar lywodraeth, y gadwyn gyflenwi a defnyddwyr/prynwyr er mwyn sicrhau dyfodol sefydlog a chynaliadwy i amaethyddiaeth yng Nghymru a chael y gorau sydd modd i'r aelodau.



## Conwy

- Ymweld ag Arc Communities, Bae Colwyn. Mae Arc yn darparu'r gefnogaeth mae pobl ei hangen i fedru cael adferiad yn y gymuned a'u cynorthwyo nhw i ddarganfod pwrpas, a gwneud y defnydd gorau o'u holl
- Ymweld â Chymdeithas Tai Cartrefi Conwy
- Ymweld â Hope Restored PACT, Llandudno
- Cynhadledd Caethwasiaeth Fodern, Bae Colwyn, i ddod â phartneriaid at ei gilydd i egluro Caethwasiaeth Fodern a beth i wylio amdano.
- Agor Swyddfa'r Heddlu newydd yn Llandudno, ar ôl y gwaith ailwampio.

## Sioeau Amaethyddol a Chenedlaethol

Mae cyfle ym misoedd yr haf i mi fynd allan a siarad gyda fy nghymuned leol yn y sioeau amaethyddol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn gyfle gwych i glywed am faterion lleol a phryderon y cyhoedd  a dod i adnabod pobl ar draws Gogledd Cymru.

## Digwyddiadau Ymgynghori

Ar gyfer ysgrifennu neu adolygu fy Nghynllun Heddlu a Throsedd, rhaid i mi ymgynghori gyda phobl Gogledd Cymru i glywed eu barn ar fy mlaenoriaethau. Rwyf wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ar y cyd gyda'r Prif Gwnstabl i wrando ar eich barn chi ar fy amcanion heddlu a throsedd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn bwysig iawn am fod cyfle i mi ddeall materion lleol a chlywed barn cymunedau Gogledd Cymru.

## Y Trydydd Sector

Mae'n hynod bwysig i mi ymweld ag asiantaethau trydydd sector i weld eu cyfraniad ardderchog i'n cymuned. Bydd y rhain yn darparu amrediad o wasanaethau i bob aelod o'n cymdeithas ac maent yn rhan allweddol o weithio mewn partneriaeth.

## Grwpiau Cymunedol

Yn ogystal ag asiantaethau trydydd sector, rwyf wedi cael y fraint o fynd i nifer o grwpiau cymunedol, o Ynys Môn i Wrecsam. Rwy'n teimlo ei bod yn hanfodol dangos fy nghefnogaeth i'r grwpiau hynny sy'n cyfrannu mewn rhyw ffordd at bob oed yn ein cymdeithas.



## Sir Ddinbych

- Ymweliad PACT Only Boys Allowed, Pafiliwn y Rhyl
- Siaradwr gwadd yng nghyfarfod Cymdeithas Ynadon Clwyd
- Ymweld ag Arc Communities, Y Rhyl
- Siaradwr Gwadd Ffederasiwn Sefydliad y Merched Sir Ddinbych

## Sir y Fflint

- Gŵyl Amrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru
- Ymweld â'r Sgowtiaid, Enillwyr PACT yn y Fflint
- Ymweld â Phentref Peryglon gydag Ysgol y Waun

## Wrecsam

- Cynnal digwyddiad min nos Transform Drugs/Anyone's Child yn Wrecsam
- Codi arian at y digartref yn Wrecsam
- Siaradwr Gwadd 12 Steps to Freedom Gogledd Ddwyrain Cymru

# Adroddiad Cynnydd ar Flaenoriaethau Strategol y Cynllun Heddlu a Throsedd - 2017/18:

Fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol plismona yng Ngogledd Cymru. Mae'r cyfeiriad strategol hwnnw i'w weld yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am bob mater gweithredol ac am gyflawni fy Nghynllun.

Bydd y rhan hon o'r adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar y cynnydd sydd wedi'i gyflawni yn ystod 2017/18 o'i gymharu gyda fy mlaenoriaethau strategol sydd i'w gweld yn y Cynllun.

Cafodd fy amcanion heddlu a throsedd eu datblygu mewn ymateb i'r rhannau lle'r oedd mwyaf o fygythiad, risg a niwed yn wynebu cymunedau Gogledd Cymru. Maent hefyd wedi defnyddio gwybodaeth ddaeth oddi wrth broses ymgynghori helaeth. Nid ydw i'n cytuno gyda chael gormod o flaenoriaethau, mae natur blaenoriaethu'n golygu nad oes modd i bopeth fod yn flaenoriaeth.

Rwyf wedi enwi pum maes blaenoriaeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

- Cam-drin Domestig
- Cam-drin Rhywiol (yn cynnwys camfanteisio'n rhywiol y blant)
- Caethwasiaeth Fodern
- Troseddu Cyfundrefnol
- Darparu Cymdogaethau Diogelach

Mae Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn disgrifio'r prif gamau gweithredu y bydd Heddlu Gogledd Cymru'n eu cymryd wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Mater i'w nodi yw pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i'w taclo nhw. Mae pob un o'r meysydd hyn yn cynnwys materion sydd tu hwnt i faes plismona, a dim ond mewn partneriaeth mae modd cael ymateb effeithiol.

## Cam-drin Domestig

Y dyhead sydd gennyf yn ystod cyfnod Cynllun 2017-21 yw:

- Darparu gwasanaeth o ansawdd da a chyson i bobl sy'n dioddef o gam-drin domestig, o adeg y cysylltiad cyntaf a pharhau ar ôl hynny
- Sicrhau bod gan rai sydd wedi bod trwy Gam-drin Domestig ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Gogledd Cymru
- Diogelu pobl sydd wedi bod trwy gam-drin domestig trwy leihau'r risg o niwed yn y dyfodol; a hefyd
- Datblygu rhaglen ymyrraeth gadarn ar gyfer y rhai sy'n cam-drin.

Un o'r ffyrdd rwyf wedi craffu ar gyflawniad yr heddlu mewn perthynas â'r flaenoriaeth yma eleni yw trwy fynd i gyfarfodydd o Banel Craffu Heddlu Gogledd ar Ddiogelu Pobl Fregus. Pwrpas y Panel hwn yw trafod meysydd allweddol o ddiogelu pobl fregus (Treisio Rhywiol, a Throseddau Rhywiol Difrifol, Cam-drin Domestig, Cam-drin ar sail Anrhydedd, Priodasau Gorfodol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Stelcian/Aflonyddu Iechyd Meddwl, Pobl Ar Goll a Cham-drin Plant ayyb). Mae disgwyl i aelodau'r Panel rannu'r themâu allweddol a'r dysgu gyda chydweithwyr yn eu gwahanol adrannau.

Mae craffu trwy gyfrwng fy Mwrdd Gweithredol Strategol wedi dangos bod cynnydd o 20.8% wedi digwydd yn 2017/18 mewn pobl yn dioddef o gam-drin domestig dro ar ôl tro o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, rwy'n deall bod tuedd i hyn ostwng yn ddiweddar. Mae'r duedd at i lawr yn cael sylw ar hyn o bryd, i weld a oes cysylltiad rhwng hynny a chanlyniadau cadarnhaol o weithredu yn ystod y flwyddyn. Mae lefel y trosedd sy'n digwydd dro ar ôl tro wedi gostwng, ac ar hyn o bryd i lawr i 6.8%.

Mae data Gwasanaeth Erlyn y Goron (hyd at Ragfyr 2017) yn dangos bod achosion llys llwyddiannus ar Gam-drin Domestig yn parhau i fod yn gyson ac yn gadarnhaol:

| | LLWYDDIANT | CYFANSWM ACHOSION | % LLWYDDIANT |
|---|---|---|---|
| **BLWYDDYN HYD YMA** | 874 | 1079 | 81.0% |
| **BLWYDDYN DDIWETHAF HYD YMA** | 770 | 992 | 77.6% |

Ar adeg cyhoeddi'r Cynllun Heddlu a Throsedd, addewais y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig, a darparu amrediad o ymyraethau amlasiantaeth. O ganlyniad i hyn, roeddwn i yn ddiweddar yn cymryd rhan mewn datblygu Strategaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar Drais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn Cadeirio Bwrdd Strategol Gogledd Cymru ar Drais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ac felly'n gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth ranbarthol yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Mae'r Strategaeth Ranbarthol yn rhoi amlinelliad o sut bydd cyrff yng Ngogledd Cymru'n ymdrin â'u cyfrifoldebau fel sydd wedi'u dangos yn Neddf VAWDASV 2015 (Cymru), a sut bydd gweithgaredd lleol yn cyfrannu at amcanion cyffredinol Strategaeth Genedlaethol VAWDASV.

Yn unol gyda'r Strategaeth Rhanbarthol, mae Amcanion Strategol VAWDASV Gogledd Cymru fel a ganlyn:

- Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau o drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru
- Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach, a bod cam-drin yn anghywir bob tro
- Cynyddu'r sylw i wneud y rhai sy'n cam-drin yn atebol, a darparu cyfleoedd i newid eu hymddygiad, ar sail diogelwch y bobl sy'n dioddef
- Blaenoriaeth i ymyrraeth gynnar ac atal
- Pobl broffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i rai sy'n dioddef camdriniaeth
- Bod y bobl sy'n dioddef camdriniaeth yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau ar draws Gogledd Cymru a bod gan y gwasanethau adnoddau priodol, o ansawdd uchel, wedi'u harwain gan yr anghenion, wedi'u seilio ar gryfder ac yn ymatebol i ryw y dioddefwyr.

Mae'n amlwg bod yna gryn dipyn o arbenigedd a gwybodaeth yn bodoli yn y maes hwn yng Ngogledd Cymru ac mae yna eisoes ethos cryf o weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, rwy'n credu'n gryf bod modd gwella ar hyn.

Mae angen i gomisiynwyr, yn cynnwys fy hun, weithio'n agosach gyda darparwyr gwasanaethau arbenigol a defnyddwyr gwasanaethau, i ddeall beth yw'r rhwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, a chreu gyda'n gilydd y modd mwyaf effeithiol o leihau'r rhwystrau a galluogi mynediad cyfartal at gefnogaeth.



Mae'n ymddangos nad oes unrhyw gysondeb wedi bod mewn darpariaeth ar draws y rhanbarth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae cael mynediad at wasanaethau wedi bod fel o lotri cod post, oherwydd ariannu tymor byr. Fel y dywedwyd uchod, roedd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyflawni strategaeth genedlaethol Cynllun Darparu ar gyfer Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Roedd hynny i ddigwydd trwy adolygu'r holl drefniadau a ffynonellau ariannu sy'n cefnogi gwasanaethau ac ymyraethau VAWDASV ar draws Cymru. Fe orffennodd y grŵp ei waith erbyn diwedd 2017, ac argymell model ariannu cynaliadwy a chanllawiau statudol drafft i Grŵp Cynghori Cenedlaethol VAWDASV, dan Gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

Er mwyn i wasanaethau VAWDASV arbenigol fod yn gynaliadwy, mae angen i ni ystyried sut i ddarparu arian i'r gwasanaethau hyn dros gyfnod cytunedig hirach. Felly bydd gwasanaethau arbenigol yn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol a thrwy hynny ddarparu gwasanaethau hyblyg, ymatebol wedi'u seilio ar beth mae'r bobl gafodd eu cam-drin yn dymuno ei gael. Mae angen yn arbennig i ni ystyried gwella lefel y gwasanaethau arbenigol i'r plant mae camdriniaeth wedi effeithio arnynt. Rhaid i wasanaethau arbenigol gael eu hadeiladu ar ariannu cynaliadwy a strategaeth comisiynu. Mae gwasanaethau arbenigol angen adnoddau er mwyn dod yn fwy cynaliadwy, yn enwedig mewn perthynas â chefnogaeth arbenigol i blant a phob ifanc.

Mae'r Coleg Plismona'n bwriadu cyhoeddi Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar Stelcian ac Aflonyddu, ond mae heb ei gyhoeddi hyd yma. Rydym o'r farn bod y gwaith hwn yn hynod o bwysig ar gyfer gwella ein gwasanaeth i bobl sy'n dioddef o'r troseddau hyn, ac mae wedi cael sylw fel mater o flaenoriaeth. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi datblygu pecyn hyfforddi cynhwysfawr, gyda chefnogaeth ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth ar y fewnrwyd ac gyda phosteri wedi'u hargraffu.

Mae Heddlu Gogledd Cymru a fy swyddfa wedi bod yn cymryd rhan weithredol ac yn cydweithredu gydag Adolygiadau Dynladdiad Domestig sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd yn ardal Heddlu Gogledd Cymru. Mae gwaith yn parhau trwy gyfrwng Bwrdd Strategol Rhanbarthol VAWDASV i ddatblygu ymyraethau ar gyfer pobl sy'n cyflawni troseddau, ar draws Gogledd Cymru, ac i gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymysg ymarferwyr iechyd.

## Cam-drin Rhywiol (yn cynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)

Y dyhead sydd gen i yn ystod cyfnod Cynllun 2017-21 yw:

- Diogelu pobl sy'n dioddef o gam-drin rhywiol trwy leihau'r tebygrwydd o'r cam-drin yn digwydd i ddechrau a'r tebygrwydd iddo ddigwydd eto.
- Sicrhau bod pobl sy'n dioddef hyn yn gallu ymddiried a chael hyder yn Heddlu Gogledd Cymru fel eu bod hwy'n hyderus i adrodd am bob digwyddiad o Gamfanteisio ar Blant yn Rhywiol.
- Darparu gwasanaeth cyson o ansawdd da i ddioddefwyr Camfanteisio ar Blant yn Rhywiol, o'r cysylltiad cyntaf ac ymlaen wedyn
- Bod yn rhagweithiol i dargedu'r bobl sy'n cam-drin a dod â hwy i gyfiawnder.

Roeddwn i a Heddlu Gogledd Cymru'n ofni y byddai'n golled pe bai Gwasanaeth Cyfweliad Dychwelyd Adref Barnardos yn dod i ben, gan ein bod ni o'r farn bod y gwasanaeth hwn yn amhrisiadwy ar gyfer canfod plant oedd mewn perygl o gael eu camfanteisio'n rhywiol. Roeddem ni'n pryderu y byddai dod â'r gwasanaeth hwn i ben yn arwain at fod llai o droseddau camfanteisio yn rhywiol ar blant yn cael eu darganfod. O ganlyniad i'n pryderon ni, mae ein cydweithwyr mewn awdurdodau lleol wedi cydnabod hyn a chytuno i adolygu'r gwasanaeth.

Bydd Heddlu Gogledd Cymru'n gweithio gyda phartneriaid, trwy gyfrwng Bwrdd Gweithredol Gogledd Cymru ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol, i gael cynlluniau gweithredu ar y cyd i sicrhau gwasanaeth cyson o ansawdd uchel i bawb sy'n dioddef o Gam-drin Plant yn Rhywiol.




Mae'n hanfodol bwysig yn y frwydr yn erbyn y gam-driniaeth hon bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol ac amserol rhwng asiantaethau partner. Rydan ni'n gweithio ar ddrafftio Protocol Rhannu Gwybodaeth Rhanbarthol ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol, Plant ar Goll a Masnachu mewn Pobl.

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n gweithio rŵan ar y cyd gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol Rhanbarthol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i gwblhau archwiliad o gwmpas achosion o gamfanteisio ar blant yn rhywiol. Bydd yr archwiliad yma'n adolygu amserlenni ymchwilio a'r rhwystrau posibl sy'n digwydd ar hyn o bryd ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Bydd canlyniad yr archwiliad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant er mwyn dylanwadu ar arferion gwaith ar draws Gogledd Cymru.

Mae disgwyl y bydd canllawiau cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi yn fuan iawn ar darfu ar ecsbloetio plant yn rhywiol. Fe gafodd dogfen ganllaw ddrafft ei chreu gan edrych o agwedd Gogledd Cymru. Rydan ni'n aros i'r canllawiau Cenedlaethol gael eu rhyddhau cyn cyhoeddi a lansio canllawiau Gogledd Cymru. Bydd y canllawiau hyn yn addysgu ac yn darparu gwybodaeth ar gyfer gweithredu i darfu ar y gamdriniaeth hon, ar lefel cymdogaeth a lefel troseddu cyfundrefnol difrifol.

Mae'r Protocol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar hyn o bryd. Bydd y canllawiau'n dod allan ar gyfer ymgynghori ym Medi 2018.

## Caethwasiaeth Fodern

Y dyhead sydd gen i yn ystod cyfnod Cynllun 2017-21 yw:

- Cynnydd mewn adrodd am droseddau Caethwasiaeth Fodern.
- Darparu cynllun gweithredu effeithiol amlasiantaeth i daclo'r troseddau hyn
- Cynyddu ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymysg y cyrff sy'n bartneriaid i ni.

Mae Caethwasiaeth Fodern yn derm cyffredinol, sy'n cynnwys masnachu mewn pobl, caethwasiaeth, caethiwed a llafur gorfodol. I'w ddisgrifio yn syml, mae'n fater o symud unigolyn o un lle i'r llall (allai fod o un wlad i'r llall, tref i dref, neu hyd yn oed o un ystafell i ystafell arall yn yr un adeilad) i amodau lle maent yn cael eu hecsploetio. Bydd y rhai sy'n cyflawni'r troseddau'n defnyddio gwahanol ffyrdd o reoli pobl, yn cynnwys twyll, gorfodaeth, camddefnyddio grym neu gamddefnyddio bregysrwydd y person.

Bydd y troseddu hyn yn gudd, ond yn aml yn digwydd lle mae'n amlwg i'w weld; ar brif strydoedd ein trefi, mewn busnesau lleol a hyd yn oed strydoedd preswyl. Efallai bydd ein cymunedau, heb sylweddoli, yn defnyddio caethweision modern ar gyfer gwaith fel golchi ein ceir, paentio ewinedd a gosod wyneb ar le byddwn yn parcio ein car. Gallant hyd yn oed fod yn byw yn y tŷ nesaf i ni.

Nid oes modd i un asiantaeth ar ei phen ei hunan fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern, fel sydd hefyd yn wir am gam-drin domestig. Mae yn gymaint yn fater cymdeithasol, cymunedol ac amgylcheddol yn ogystal ag yn un troseddol. Mae'n hanfodol, yn hytrach nag yn ddymunol, ein bod yn gweithio mewn partneriaeth i daclo caethwasiaeth fodern. Mae angen i ni gael yr holl gyrff sector cyhoeddus i gyd-dynnu gyda chefnogaeth cyrff sector preifat a thrydydd sector i gael unrhyw obaith o fynd i'r afael â'r troseddau sy'n gysylltiedig gyda chaethwasiaeth fodern.

Ym mis Hydref 2017 cynhaliwyd cynhadledd gennyf ar gyfer cyrff cyhoeddus er mwyn rhoi mwy o ddealltwriaeth iddynt am gaethwasiaeth fodern, gan roi manylion o sut beth yw hyn yng Ngogledd

Cymru a thynnu sylw at eu cyfrifoldebau hwy i'w daclo. Cafodd y gynhadledd gyfraniadau oddi wrth arweinwyr cenedlaethol yn y maes, yn cynnwys Kevin Hyland, y Comisiynydd Gwrthgaethwasiaeth Cenedlaethol, Roy McComb, Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl yn yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a Paul Broadbent, Prif Weithredwr yr Awdurdod Cam-drin Llafur Meistri Gangiau. Roedd gwybodaeth a rhagoriaeth yr arweinwyr hyn yn y diwydiant o gymorth i mi gyfleu fy neges i bartner-iaid bod caethwasiaeth fodern yn fater i bawb.

Ers adeg y gynhadledd, rwyf wedi gweld cynnydd amlwg mewn gweithgaredd ymysg partneriaid o gwmpas y rhaglen caethwasiaeth fodern. Mae'r Grŵp Rhanbarthol Caethwasiaeth Fodern wedi symud ymlaen yn dda eleni ac rwy'n falch o'r cynnydd amlwg mewn dealltwriaeth ac ymgysylltu rydym yn ei weld oddi wrth ein partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Mae llawer o waith yn dal i'w wneud ar gyfer pawb sy'n ymwneud gyda chaethwasiaeth fodern, a rhaid cael gwelliannau pellach. Fodd bynnag, rwy'n hyderus bod y gynhadledd wedi cynorthwyo i godi proffil y mater a chreu mwy o ddealltwriaeth o'r troseddau sy'n gysylltiedig gyda Chaethwasiaeth Fodern a'r ymatebion sydd eu hangen.

Rwyf hefyd yn monitro Heddlu Gogledd Cymru ar eu gweithgaredd a chyflawniad mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern. Mae cynnydd wedi digwydd eleni yn nifer yr achosion o gyflwyno gwybodaeth i'r heddlu. Bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r heddlu i darfu ar y troseddu ac i'w ymdrin a diogelu'r rhai sy'n dioddef ohono. Er bod nifer y troseddau'n isel ar hyn o bryd, byddant yn cynyddu wrth i fwy o wybodaeth ddod i mewn a mwy o bobl ddod i ddeall beth yw caethwasiaeth fodern, sut mae'n edrych a sut i adrodd amdano ac ymdrin ag ef.

Yn ôl ffigyrau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol am 2017, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyfeirio nifer sylweddol o faterion at y Peirianwaith Cyfeirio Cenedlaethol o'i gymharu efo'i maint a heddluoedd eraill. O'r 54 mater a gyfeiriwyd gan Heddluoedd Cymru, daeth 21 (sydd bron yn 39%) oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru.

Yn 2017 fe wnes i gomisiynu Cymorth Dioddefwyr i ddarparu gwasanaethau Gweithiwr Cefnogi Caethwasiaeth Fodern,  i weithio ochr yn ochr gyda'r Uned Caethwasiaeth Fodern a thu mewn i'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr. Mae'n darparu cefnogaeth allweddol i bobl sy'n dioddef o gaethwasiaeth fodern ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ymysg grwpiau o bobl sydd mewn perygl oddi wrth hyn. Dyma'r rôl gyntaf o'i bath. Rhan allweddol o'r rôl yw rhoi mwy o sicrwydd i ddioddefwyr er mwyn iddynt barhau i gadw mewn cysylltiad gyda'r heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill a chael canlyniad iawn i'w hachos.

Yn fy seremoni wobrwyo eleni roedd gwobr roeddwn wedi'i chreu yn benodol,  i anrhydeddu unigolyn neu sefydliad oedd wedi gwneud cyfraniad sylweddol tuag at y rhaglen yn erbyn caethwasiaeth. Fe aeth y wobr i Sian Humphreys o Barnardos am ei gwaith fel Eiriolydd Annibynnol Masnachu Plant (ICTA). Mae Sian yn un o bedwar o bobl yn gwneud y gwaith hwn ar draws Cymru. Gellir gweld o'r ffigyrau diwedd blwyddyn ei bod hi'n gweithio mor effeithiol gyda'r Uned Caethwasiaeth Fodern nes ei bod hi'n gyfrifol am bron iawn hanner yr holl gyfeirio am hyn ar draws Gymru. Dyma'r math o weithio mewn partneriaeth rwy'n ei annog er mwyn ymdrin yn effeithiol gyda chaethwasiaeth fodern a'r bobl fwyaf bregus sy'n dioddef ohono.



CHTh ARFON JONES YN ANNERCH Y GYNULLEIDFA YN Y GYNHADLEDD CAETHWASIAETH FODERN

## Troseddau Trefnedig

Y dyhead sydd gen i yn ystod cyfnod Cynllun 2017-21 yw cael:

- Asesiad llawn o'r grwpiau troseddu cyfundrefnol sy'n gweithredu yn ein hardal ac ymateb aml-haen er mwyn tarfu ar y grwpiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n achosi fwyaf o risg/berygl.
- Cyhoeddusrwydd i'r llwyddiant fyddwn yn ei gael trwy Ymgyrch Scorpion, a thrwy hynny gynyddu ymwybyddiaeth o'r math hwn o droseddu yng Ngogledd Cymru.
- Defnyddio tactegau tarfu effeithiol.
- Ymyrraeth ieuenctid effeithiol lle rydym yn gwybod bod pobl ifanc yn cysylltu gyda grwpiau troseddu cyfundrefnol.
- Llwybrau gwell i ddefnyddwyr cyffuriau gael triniaeth.

Fel gyda chaethwasiaeth fodern, yn ystod 2017/18 mae'r sgôr risg ar gyfer troseddu cyfundrefnol wedi cynyddu, yn bennaf o ran cyflenwi cyffuriau dosbarth A. Mae cyflenwi cyffuriau Dosbarth A mewn ffordd gyfundrefnol wedi newid o Risg Canolig i Risg Uchel am fod newid sylweddol wedi digwydd yn ein dealltwriaeth o allu a bwriad grwpiau troseddu cyfundrefnol. Mae cynnydd amlwg wedi digwydd mewn trais yn gysylltiedig gyda chyffuriau yng Ngogledd Orllewin Lloegr yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ac mae'n debyg bod y bygythiadau a gweithgaredd sy'n digwydd yn lleol yn adlewyrchu hyn.

Mae ein gweithredu wedi canolbwyntio ar wella llywodraethiant mewnol, delio gyda chynnydd yn y bygythiadau o Ogledd Orllewin Lloegr, ynghyd â gweithio sylweddol yn amlasiantaeth ac mewn partneriaeth. Mae cynnydd mewn trais yn ymwneud gyda chyffuriau yng Ngogledd Orllewin Lloegr, yn enwedig ar Lannau Mersi, wedi cynyddu'r bygythiad yng Ngogledd Cymru a chael effaith sylweddol ar ein hadnoddau ni.

Fe wnaeth Heddlu Gogledd Cymru ddadansoddiad o'r bylchau i weld lle'r oedd yr arfer da a'r cyfleoedd i ddatblygu, mewn rheolaeth ragweithiol ac adweithiol o'n grwpiau risg uchel ni. Mae proses ddeinamig o rannu data yn ei lle erbyn hyn gyda'r Uned Ranbarthol Troseddu Cyfundrefnol, o ran bygythiadau sy'n dod yn amlwg, i rannu gwybodaeth yn gyflym.

Mae gwaith ataliol yn digwydd trwy Ddiogelwch Cymunedol yn defnyddio Gorchmynion Cau o dan y Ddeddf newydd ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona, er mwyn tarfu ar lefydd trafferthus mae grwpiau troseddu cyfundrefnol yn eu defnyddio wrth ecsbloetio tenantiaid bregus.

Mae defnyddio a chyflenwi Sylweddau Seicoweithredol wedi cael ei weld fel bygythiad strategol. Mae ymgysylltiad amlasiantaeth sylweddol yn digwydd gyda defnyddwyr yn Wrecsam, ac mae'r dadansoddiad dechreuol wedi cael ei gwblhau.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, mae wedi bod yn ofynnol gan y Swyddfa Gartref i bob Awdurdod Lleol gynnal archwiliad o'u proses gaffael er mwyn asesu'r risg oddi wrth Droseddu Cyfundrefnol a llygredd, ac rwyf wedi croesawu hyn. Er mwyn cefnogi ein partneriaid, fe fu swyddogion Heddlu Gogledd Cymru'n briffio adrannau perthnasol o awdurdodau lleol i gefnogi eu dealltwriaeth o'r bygythiadau.

## Llinellau Cyffuriau

Mae **'County Lines'** sef **'Llinellau Cyffuriau'** yn derm bydd yr heddlu a'r drefn gyfreithiol yn ei ddefnyddio. Mae'n disgrifio'r ffordd bydd gangiau a rhwydweithiau troseddol o ardaloedd trefol yn dod i lefydd fel trefi sirol a glan môr i werthu cyffuriau Dosbarth A. Bydd y gangiau hyn yn arfer defnyddio plant a phobl ifanc bregus i ddanfon cyffuriau i gwsmeriaid. Bydd hynny'n aml yn golygu defnyddio twyll, bygythiadau, trais, cadw pobl yn gaeth mewn dyled a/neu fagu perthynas amhriodol er mwyn cymryd mantais ar bobl. Bydd y ffordd hon o weithredu'n golygu hysbysu defnyddwyr cyffuriau o linell ffôn i'w defnyddio i ofyn am gyffuriau penodol.

Fe gafodd strategaeth ei datblygu i daclo'r drefn llinellau cyffuriau hyn, gyda golwg ar leihau'r niwed i gymunedau Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd Cymru.

O gofio graddfa'r her mae'r drefn llinellau cyffuriau yn ei gosod, rwy'n bwriadu newid rywfaint ar fy Nghynllun Heddlu a Throsedd i sicrhau bod hyn yn cael sylw mwy amlwg.

Roedd nifer o orchmynion Deddf Enillion Troseddau yn llwyddiannus yn 2017/18, gyda chyfanswm o £731,257.

## Cyffuriau

Mae cyflenwi Cyffuriau Dosbarth A wedi'i gysylltu'n bendant gyda throseddau trefnedig. Rwyf wedi datgan fy marn yn barod ar y polisi cyffuriau presennol. Rwyf o blaid trin camddefnyddio cyffuriau fel mater iechyd yn hytrach na mater troseddol. Yn ystod 2017, croesewais gynhadledd arbennig i Wrecsam ar reoleiddio cyffuriau. Roedd y digwyddiad wedi'i drefnu gan yr elusen Anyone's Child, sy'n rhwydwaith rhyngwladol o deuluoedd sydd wedi colli plant i gyffuriau ac yn credu bod gwahardd yn wrthgynhyrchiol a niweidiol. Nod y digwyddiad oedd hyrwyddo trafodaeth am beth allai agwedd newydd tuag at gyffuriau ei olygu i deuluoedd a chymunedau Wrecsam. Roedd cynulleidfa lawn o 70 o bobl yno. Ar ôl yr areithiau, fe gafwyd sesiwn holi ac ateb fywiog, gyda'r mwyafrif helaeth o'r gynulleidfa'n cefnogi'r syniad o reoleiddio cyffuriau.

Yn 2017, fe ryddhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei Strategaeth Cyffuriau, oedd yn cynnwys fel un o'r prif flaenoriaethau gynyddu nifer y defnyddwyr sydd mewn sefyllfa adfer. Er bod hwnnw'n gam cadarnhaol i gydnabod yr angen i gefnogi'r rhai sydd mewn adferiad, mae'r Llywodraeth yn parhau i anwybyddu manteision cael ystafelloedd i gymryd cyffuriau. Rwyf wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ailystyried sut i leihau nifer y defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig, a byddaf yn parhau i bwyso felly.

Mae'n parhau'n flaenoriaeth i mi ddargyfeirio unigolion i ffwrdd oddi wrth y Drefn Cyfiawnder Troseddol trwy roi sylw i'r trafferthion sylfaenol sydd ganddynt. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi treulio swm sylweddol o amser yn ymchwilio ac yn ymweld â gwahanol gynlluniau i ddargyfeirio defnyddwyr cyffuriau, er mwyn canfod yr un gorau i Ogledd Cymru.

Mae rhaglen Checkpoint yn Durham yn gadael i unigolion sy'n ymddangos yn y ddalfa am drosedd lefel isel gael dewis arall yn hytrach na'r Drefn Cyfiawnder Troseddol. Felly bydd unigolion yn cael cynnig cefnogaeth trwy gyfrwng person wedi'u dynodi ('navigator') i roi sylw i'r materion sylfaenol sydd wedi achosi iddynt droseddu. Mewn cynllun fel hyn, bydd unigolion yn cael dewis ac os byddant yn dewis peidio mynd ar y rhaglen byddant wedyn yn mynd trwy'r Drefn Cyfiawnder Troseddol yn y ffordd arferol.

Mae Rhaglen Addysg Bryste yn gynllun dargyfeirio sy'n targedu pobl gyda sylweddau anghyfreithlon yn eu meddiant at ddefnydd personol, o Ddosbarth A i lawr i Ddosbarth C. Mae'r rhaglen hon yn debyg i gwrs ymwybyddiaeth cyflymder gan ei bod yn ymyrraeth o bedair awr ac os bydd yr unigolyn yn ei chwblhau'n llwyddiannus ni fydd yn cael record droseddol. Mae cwrs ymyrraeth pedair awr yn fwyaf addas ar gyfer unigolion sy'n ddefnyddwyr hamdden o gyffuriau yn hytrach na defnyddwyr problematig.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn hanfodol ar gyfer ymchwilio a datblygu syniadau o ran ba gynlluniau ymyrryd fyddai orau ar gyfer Gogledd Cymru. Yn wahanol i heddluoedd eraill sydd wedi gweithredu cynlluniau dargyfeirio fel Durham ac Avon a Gwlad yr Haf, mae tirwedd daearyddol Gogledd Cymru'n amrywio o ardaloedd trefol i rai gwledig iawn, ac wrth gwrs mae angen i ni hefyd ystyried gofynion yr iaith Gymraeg. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf ar ba fodel fyddai'r dewis gorau, ar gyfer ei weithredu erbyn mis Hydref 2019.

## Cymdogaethau Diogelach

Pan fydd pobl yn gweld bod yr heddlu o gwmpas, bydd hynny'n atal troseddu mewn llefydd cyhoeddus, yn rhoi sicrwydd i'r mwyafrif o bobl ac yn atgyfnerthu cysylltiadau'r heddlu gyda'r cyhoedd. Ond, fel rwy'n dweud yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd, mae 30% o'r troseddau y bydd pobl yn adrodd amdanynt yn digwydd ar-lein, a dros hanner y troseddau twyll yn digwydd ar-lein. Felly, er bod yr adnoddau sydd ar gael i ni'n gostwng, rhaid i ni ganolbwyntio ar le mae mwyaf o fygythiad, risg a niwed.

Rwy'n benderfynol bod rhaid i'r adnoddau hyn, er yn prinhau, ganolbwyntio ar y rhannau lle mae troseddu difrifol a'r bobl hawddaf i'w niweidio, felly mae'n her fawr iawn cael yr heddlu allan ac i'w gweld yn amlwg yn mynd o gwmpas. Rhaid i ni wahaniaethu rhwng cael ein gweld a bod ar gael.

Mae cyfle i Heddlu Gogledd Cymru barhau i ddatblygu presenoldeb digidol ac ar-lein fel ffordd effeithiol o ymgysylltu. Gyda phenodi'r Prif Gwnstabl Carl Foulkes yn ddiweddar, rwy'n edrych ymlaen at ddatblygiadau pellach yn y maes hwn dros y deuddeng mis nesaf. Carl sy'n arwain ar fater plismona digidol ar gyfer Arweinydd Cenedlaethol Prif Swyddogion Heddlu.

Trwy gydol 2017/18, mae'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol wedi parhau'n gadarnhaol o ran bod y cyhoedd yn cytuno bod Heddlu Gogledd Cymru'n deall materion cymunedol.

Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Heddlu Gogledd Cymru hefyd wedi dangos bod ymgysylltu iach a chynyddol yn digwydd. Ac roedd Arolwg Hyder y Cyhoedd yn cefnogi hynny, gan ddangos lefelau uwch o ymgysylltu ac adborth gadarnhaol o ran mynediad.

Yn Chwefror 2017, dosbarthwyd 1,350 o ddyfeisiadau Samsung S7 i swyddogion rheng flaen a Swyddogion Cefnogi Cymuned, ac mae modd gweithredu trwy ap ar gyfer System Rheoli Cofnodion yr Heddlu ers Mehefin 2017. Daeth diweddariadau pellach wedyn, yn cynnwys galluogi swyddogion i gwblhau nifer fawr o ffurflenni ar eu dyfeisiadau symudol (fel CID16 a ffurflenni Marwolaeth Sydyn).

Roedd Digwyddiad Partneriaethau Datrys Problemau ym Medi 2017. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys popeth sy'n dda am weithio mewn partneriaeth ac yn annog cydweithio pellach trwy Wobrwyo a Chydnabod.

Byddaf yn dod i gysylltiad yn rheolaidd gydag aelodau o'r cyhoedd, busnesau, sefydliadau trydydd sector, swyddogion a staff yr heddlu, a chynrychiolwyr etholedig o bob rhan o Ogledd Cymru. Mae'r holl gyfarfodydd hyn wedi fy ngalluogi i ganfod pa mor effeithiol yw Heddlu Gogledd Cymru am ddeall materion cymunedol a faint o gysylltiad mae'r cyhoedd yn ei deimlo o ran materion plismona.

Mae pwysigrwydd cysylltiadau cymunedol gyda'r cyhoedd wedi cael sylw o ddifri yn ystod 2017. Daeth pwysigrwydd gwasanaeth yr heddlu'n amlwg iawn gyda'r ymosodiadau terfysgol yn San Steffan (Mawrth 2017), Manceinion (Mai 2017), London Bridge, Finsbury Park (y ddau ym Mehefin 2017) a Parsons Green (Medi 2017). Roedd yn pwysleisio'n enwedig y dewrder sydd i'w weld bob dydd wrth amddiffyn ein cymunedau. Fe ymatebodd Heddlu Gogledd Cymru trwy ddod yn fwy amlwg i bobl gael eu gweld o gwmpas ac ymgysylltu mwy, i sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n ddiogel yn ein cymdogaethau.

Ar noson yr ymosodiad ym Manceinion, fe ymatebodd Heddlu Gogledd Cymru ar unwaith a gyrru swyddogion i ganol y ddinas i ddarparu cymorth arfog i Heddlu Manceinion yn ystod y dyddiau ac oriau yn dilyn hynny. Wedyn i ddilyn ymlaen roedd ein swyddogion ar y strydoedd ochr yn ochr efo'u cydweithwyr o Heddlu Manceinion, i ddangos bod plismona'n sefyll gyda'i gilydd i gefnogi pob un o'n cymunedau. Roedd ein pobl ni'n bresennol ar gyfer y digwyddiadau cyhoeddus a chyngherddau, ac roeddent yn gweld ei fod yn gyfnod o werthfawrogi cryfder pobl eraill a hefyd yn gyfnod arbennig o gadarnhaol yn y gwasanaeth. Roedd pobl Manceinion, ymwelwyr a'u cyd-swyddogion yn ysgwyd llaw ac yn sôn yn emosiynol am faint oedd yn ei olygu i weld yr enw 'Heddlu' ochr yn ochr gyda swyddogion Heddlu Manceinion, a'r rheiny bron wedi blino'n llwyr wrth wneud cymaint o gyfraniad.

Yn y cyfamser, roedd mwy o'n heddlu allan, i wneud yn sicr bod digwyddiadau a chyngherddau yng Ngogledd Cymru'n cael lefelau uwch o ddarpariaeth arfog a gwaith chwilio, a bod o gwmpas i gadw golwg. Felly roedd bywyd arferol yn gallu parhau gyda lefel uchel o sicrwydd. Roedd pobl ifanc, rhieni a threfnwyr digwyddiadau'n dweud eu bod yn falch o weld y cynnydd mewn presenoldeb. Dywedodd rhai bod ein presenoldeb wedi gwneud iddynt newid eu meddwl o ran dewis mynd i ddigwyddiadau cyhoeddus mawr neu beidio. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn cefnogi llawer o ymholiadau heriol a brys ar draws ardal Gogledd Orllewin Lloegr a Llundain. Mae swyddogion arbenigol ar draws nifer o wyddorau wedi bod yn mynd allan ar ddyletswydd gydag ychydig iawn o rybudd neu ddim rhybudd o gwbl, am gyfnodau sylweddol i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd. Roedd hynny'n parhau trwy gydol Haf 2017, oedd yn adeg derfysglyd ac, ar adegau'n drasig.

# Crynodeb o Ganlyniadau

Mesurir cyflawniad drwy gymharu 2017/18 yn erbyn y flwyddyn flaenorol Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017 (oni nodir) er mwyn adnabod unrhyw feysydd sy'n peri pryder, sydd hefyd yn fy nghynorthwyo i gyflawni dyletswydd craffu'r Prif Gwnstabl a'i ddwyn i gyfrif wrth gyflwyno fy Nghynllun.

## Canlyniadau Trais Domestig

| MESUR Y CYNLLUN CYFLAWNI | CYFLAWNIAD |
|---|---|
| Ymchwilio, diogelu a gofal effeithiol i ddioddefwyr | Tystiolaeth o Ddiogelu: 96.0%<br>Cyfarwyddyd Goruchwyliol: 92.0%<br>Ymchwiliad wedi'i gynnal yn fuan: 96.0%<br>Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Dioddefwyr: 80.0% |
| Dioddefwyr mynych 3+ | 2,162 (+21.3%) |
| Troseddwyr mynych 3+ | 819 (-4.1%) |
| Sgôr risg strategol | Uchel |
| Hyder a boddhad dioddefwyr | Dim data – i'w gofnodi ar ôl recriwtio staff |

## Canlyniadau Trais Domestig Gwasanaeth Erlyn y Goron (hyd at fis Rhagfyr 2017)

| | LLWYDDIANNUS | CYFANSWM YR ACHOSION | % LLWYDDIANNUS |
|---|---|---|---|
| **MIS** | 79 | 97 | 81.4% |
| **BLWYDDYN HYD YMA** | 874 | 1079 | 81.0% |
| **BLWYDDYN OLAF HYD YMA** | 770 | 992 | 77.6% |

## Canlyniadau Caethwasiaeth Fodern

| MESUR Y CYNLLUN CYFLAWNI | CYFLAWNIAD |
|---|---|
| Ymchwilio, diogelu a gofal effeithiol i ddioddefwyr | Tystiolaeth o Ddiogelu: 100%<br><br>Cyfarwyddyd Goruchwyliol: 100%<br><br>Ymchwiliad wedi'i gynnal yn fuan: 100%<br><br>Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Dioddefwyr: 100% |
| Dioddefwyr mynych 3+ | Mae'r niferoedd yn rhy isel ar hyn o bryd |
| Troseddwyr mynych 3+ | Mae'r niferoedd yn rhy isel ar hyn o bryd |
| Sgôr risg strategol | Uchel |
| Hyder a boddhad dioddefwyr | Dim data – i'w gofnodi ar ôl recriwtio staff |

## Canlyniadau Troseddau Difrifol a Threfnedig

| MESUR Y CYNLLUN CYFLAWNI | CYFLAWNIAD |
|---|---|
| Bwriad a Gallu Grwpiau Troseddau Trefnedig | Mae yna fwy o Grwpiau Troseddau Trefnedig yn cael eu nodi yn ystod y flwyddyn, gyda chynnydd ym mhob lefel o ddifrifoldeb. |
| Sgôr risg strategol | Mae'r cyflenwad cyfundrefnol o gyffuriau Dosbarth A yn parhau i fod yn uchel.<br><br>Mae Troseddau Seibr Ddibynnol yn parhau i fod yn Ganolig (cynnydd nodedig mewn troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn y Gorllewin Orllewin). |

## Cyffuriau

Gwelwyd cynnydd o 6.1% flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y digwyddiadau cyffuriau, cynnydd o 1270 i 1347. Mae'r mwyafrif o'r rhain wedi bod yn droseddau meddiant.

Sicrhawyd erlyniadau llwyddiannus eleni am gyflenwi cyffuriau Dosbarth A gyda'r Heddlu yn targedu Grwpiau Troseddau Trefnedig a dod â'u haelodau o flaen eu gwell. Un enghraifft o hyn yw Ymgyrch Bypassed a oedd yn canolbwyntio ymchwiliad ar y cyflenwad o gyffuriau Dosbarth A i sir Wrecsam, gan droseddwyr a oedd yn rhan o grŵp o Lerpwl. Roedd y gang yn gweithredu 'Llinellau Cyffuriau' a hefyd 'cogio' ('cuckooing') - sef y term am gymryd eiddo oddi ar bobl leol agored i niwed. Mae 4 troseddwr wedi'u cael yn euog a llwyddwyd i adfer £46,000 o arian parod. Cyfanswm y dedfrydau oedd 32 mlynedd a 4 mis.

Erlyniad llwyddiannus arall yw Ymgyrch Lamberts. Roedd hyn yn grŵp arall o Lerpwl, a oedd yn cyflenwi cyffuriau yn ardal Glannau Dyfrdwy yr Heddlu.

Unwaith eto, nodwyd Llinell Gyffuriau, adferwyd £3,983.00 o arian parod ac mae tri throseddwr wedi'u cael yn euog o gynllwyn i gyflenwi cyffuriau Dosbarth A a chawsant ddedfryd o 11 mlynedd a 4 mis.

Hyd yma eleni gwelwyd gostyngiad o 38.0% yn nifer yr arestiadau cyffuriau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r patrwm o rybuddion canabis sydd wedi gostwng 32.0% flwyddyn ar ôl blwyddyn er, yn y tymor hwy, gwelwyd sefydlogrwydd cymharol. Gwelwyd ymdrech i symud tuag at fynychu'r ddalfa yn wirfoddol yn hytrach nac arestiadau. Mae ffocws hefyd ar droseddau cynhyrchu a chyflenwi, yn hytrach na meddiant, sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr arestiadau a rhybuddion, oherwydd dim ond cyfran fach o'r holl ddigwyddiadau cyffuriau a gynrychiolir gan y rhain. Rwy'n darparu manylion pellach am fy marn ar y polisi cyffuriau yn yr adroddiad hwn.

| BLWYDDYN HYD YMA | BLWYDDYN OLAF HYD YMA | % NEWID |
|---|---|---|
| 675 | 1088 | -38% |

## Canlyniadau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

| MESUR Y CYNLLUN CYFLAWNI | CYFLAWNIAD |
|---|---|
| Ymchwilio, diogelu a gofal effeithiol i ddioddefwyr | Tystiolaeth o Ddiogelu: 100%<br>Cyfarwyddyd Goruchwyliol: 100%<br>Ymchwiliad wedi'i gynnal yn fuan : 100%<br>Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Dioddefwyr: 100% |
| Dioddefwyr mynych 3+ | Y mesur yn cael ei adolygu |
| Dioddefwyr mynych 3+ | Y mesur yn cael ei adolygu |
| Sgôr risg strategol | Troseddau Cyswllt (gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol) Canolig<br>CSE – Delweddau Anweddus Ar-lein o Blant<br>Canolig (Mae colli cefnogaeth Barnardos yn niweidiol ond mae'r capasiti cyffredinol yn lliniaru hyn). |
| Hyder a boddhad dioddefwyr | Y mesur yn cael ei adolygu |

## Canlyniadau Cymdogaethau Diogelach (Data Mawrth 2018)

| MESUR Y CYNLLUN CYFLAWNI | CYFLAWNIAD |
|---|---|
| Mae'r Heddlu yn deall materion cymunedol | 76.0% o'r cyhoedd yn cytuno |
| Mae'r Heddlu yn ymateb i faterion cymunedol | 63.8% o'r cyhoedd yn cytuno |
| Defnyddio data symudol | 11% o gyfanswm y gweithgarwch wedi'i wneud ar ddata symudol |
| Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned | Cynyddu ymgysylltiad gan y cyhoedd gyda chyfryngau cymdeithasol Heddlu Gogledd Cymru |
| Cyfranogiad Timau Cymdogaethau Diogelach | Y mesur yn cael ei adolygu |

# Safonau Cofnodi Troseddau

Mae uniondeb prosesau cofnodi troseddau Heddlu Gogledd Cymru yn hollbwysig. Mae'n dweud wrthyf i, a phobl Gogledd Cymru, bod fy Nghynllun yn seiliedig ar ddata cywir. Mae'n cadarnhau bod fy null o graffu ar gyflawniad yr Heddlu yn seiliedig ar wybodaeth gywir.

Yn 2017 bu i Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) arolygiad o safonau ac arferion cofnodi troseddau yng Ngogledd Cymru (roedd hyn yn adolygiad o ba mor gywir y mae'r Heddlu'n cofnodi troseddau).

Roedd Arolygiaeth Ei Mawrhydi o'r farn bod angen i Heddlu Gogledd Cymru "wneud gwelliannau" o ran cywirdeb ei brosesau cofnodi troseddau. Er fy mod yn cytuno bod lle i wella mewn rhai meysydd, rwy'n siŵr bod y gwaith i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad wedi dechrau cyn ei gyhoeddi. Mae hefyd yn bwysig i mi nodi bod nifer o bwyntiau cadarnhaol wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac ni ddylid anwybyddu'r rhain.

Roedd y cwestiwn cyntaf yn edrych ar effeithiolrwydd yr Heddlu yn cofnodi troseddau ac yn nodi bod angen i'r heddlu "wneud gwelliannau". Cyfradd cofnodi troseddau gyffredinol yr Heddlu oedd 88.3%, ac amcangyfrifir bod 5300 o droseddau'n cael eu methu bob blwyddyn. Roeddwn yn bryderus i ddechrau o glywed bod nifer o'r troseddau a oedd yn cael eu methu yn cynnwys digwyddiadau domestig, oherwydd mae mynd i'r afael â thrais domestig yn flaenoriaeth yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Fodd bynnag, roedd yr heddlu eisoes wedi comisiynu adolygiad pellgyrhaeddol o sut yr ydym yn ymdrin â bregusrwydd ac rydym wedi buddsoddi swm sylweddol o hyfforddiant ar y broses 'THRIVE' (Bygythiad, Niwed, Risg, Ymchwiliad, Bregusrwydd, Ymgysylltiad).

Rwyf wedi fy nghalonogi o glywed bod pob un o'r troseddau a fethwyd, a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad, wedi'u hadolygu gan yr heddlu a bod pob un a oedd yn galw am fesurau diogelu wedi'u hadolygu gan yr Uned Diogelu Pobl Agored i Niwed. Rwy'n fodlon bod pob un o'r dioddefwyr a nodwyd yn y troseddau hyn a fethwyd wedi derbyn y cymorth a'r mynediad at y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt. Dylid nodi bod yr arolygiaeth wedi canmol cywirdeb y cofnodion troseddau rhywiol a nododd y gwelliannau a wnaed gan yr heddlu ers ymchwiliad 2014 sydd wedi arwain at welliannau a chysondeb uwch, gyda chyfradd gydymffurfio o 96.9%. Mae cywirdeb y gwaith o gofnodi troseddau rhywiol yn ffactor pwysig ar gyfer cynyddu hyder y cyhoedd yn Heddlu Gogledd Cymru. Fel un o'm blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd, rwy'n ceisio cynyddu'r achosion o gam-drin rhywiol sy'n cael eu cofnodi a chynyddu'r nifer o droseddwyr sy'n cael eu dwyn o flaen eu gwell.

Roedd yr ail gwestiwn yn canolbwyntio ar ba mor effeithlon yw systemau a phrosesau'r heddlu ar gyfer cefnogi dulliau cofnodi troseddau cywir, a arweiniodd at sgôr "da" ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

Roedd y cwestiwn olaf yn canolbwyntio ar ba mor llwyddiannus y mae'r heddlu'n arddangos yr arweinyddiaeth a'r diwylliant sydd eu hangen i gyflawni'r safonau cenedlaethol ar gofnodi troseddau. Rwy'n falch iawn bod Heddlu Gogledd Cymru wedi derbyn sgôr "rhagorol" am eu harweinyddiaeth a'u diwylliant. Mae'r heddlu'n parhau i weithio'n galed i sicrhau bod y dioddefwr yn derbyn blaenoriaeth mewn penderfyniadau ar gofnodi troseddau. Cyflwynwyd nifer o newidiadau ers yr ymchwiliad diwethaf yn 2014 er mwyn parhau i ysgogi a chyflwyno gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i bobl Gogledd Cymru.

# Y Rhagolygon Ariannol

Er bod mwy o sicrwydd ynglŷn â setliad 2019/20 nac a fu yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon ariannol yn parhau i fod yn rhai heriol. Cyhoeddwyd y bydd y grant plismona a roddir i'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yr un fath yn 2019/20 â'r flwyddyn ariannol bresennol. Fodd bynnag, bydd ond yn bosibl cadarnhau hyn pan wneir y cyhoeddiadau ynghylch y setliad.

Er bod setliad arian parod gwastad yn welliant sylweddol ar y rhan fwyaf o'r blynyddoedd ers 2010/11, mae hyn yn parhau i gynrychioli gostyngiad mewn cyllid grant mewn termau real. Yn dilyn codi'r cap o 1% ar godiadau cyflog y sector cyhoeddus, a'r chwyddiant cyffredinol o 2.3% (CPI Mai 2018), byddai'n rhaid i mi gynyddu'r dreth gyngor o tua 4.5% yn 2019/20 er mwyn i'r gyllideb blismona allu cyd-fynd â'r prisiau cynyddol. Byddai caniatáu chwyddiant o 2% hyd yn oed (yn unol â'r codiadau cyflog presennol yn y sector cyhoeddus) yn galw am gynnydd o 3.9%.

Yn ogystal, bydd y cynnydd arfaethedig i gyfraniadau cyflogwyr i bensiwn yr heddlu yn golygu £1.982 miliwn ychwanegol yn 2019/20, sy'n gyfwerth â chynnydd o 2.65% yn y dreth gyngor. Cynigir y bydd cynnydd pellach o £3.304 miliwn o 2020/21 ymlaen, sy'n golygu y bydd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr £5.286 miliwn yn uwch na'r symiau presennol. Mae'r cyhoeddiad hwyr ynghylch hyn wedi golygu na fu'n bosibl cynllunio ar gyfer hyn ymlaen llaw.

Disgwylir i fy nghronfeydd wrth gefn leihau'n gyflym yn y blynyddoedd nesaf, oherwydd rwyf yn eu defnyddio i ariannu buddsoddiadau yn fy ystâd ac mewn TG. Yna byddaf yn penderfynu a fyddaf yn ariannu'r rownd nesaf o fuddsoddiad cyfalaf drwy fenthyca, naill ai i gynyddu fy nghronfeydd wrth gefn unwaith eto er mwyn ariannu'r buddsoddiad hwn, neu a ddylid cyllido ar gyfer hyn drwy gyfuniad o'r rhain. Pa bynnag opsiwn a ddewisaf, bydd yn cael effaith ar y gyllideb wrth gefn wrth symud ymlaen.

Mae nifer o'r mathau o droseddau datblygol a nodwyd yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yn ddrutach i'w hymchwilio na throseddau traddodiadol. Mae gwasanaethu'r angen hwn, yn ogystal â'm hymrwymiad i sicrhau cymdogaethau mwy diogel, yn golygu bod angen nodi meysydd lle gellir cyflawni arbedion, er mwyn cadw'r cynnydd yn y dreth gyngor ar lefel resymol. I'r perwyl hwn, mae'r Heddlu wedi dechrau gweithredu Rhaglen o Welliannau Gweithredol er mwyn ystyried ffyrdd o newid arferion gwaith yr Heddlu er mwyn gallu cyflwyno'r gwasanaethau gorau bosibl a hynny o fewn y gyllideb sydd ar gael. Bydd canlyniadau cyntaf gwaith y Rhaglen o Welliannau Gweithredol yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y gyllideb ar gyfer 2019/20.

# Cyllido a Chyllid

## Cyllideb yr Heddlu

Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd sy'n gyfrifol am bennu'r gyllideb a roddir i'r Prif Gwnstabl ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Pennwyd cyllideb net o £141.1 miliwn i'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2017/18. Defnyddiwyd y £2.05 miliwn a oedd yn weddill ar gyfer fy Nghronfa Comisiynydd (sy'n ariannu mentrau megis diogelwch cymunedol, ymyriadau cyffuriau a chyfiawnder ieuenctid) a hefyd ar gyfer costau fy swyddfa.

Er bod grantiau gan y llywodraeth ganolog, sy'n cael eu pennu gan y Swyddfa Gartref, yn cynrychioli 50% o'r cyllid, ariannwyd 50% gan drethdalwyr lleol. Mae'r Datganiadau Cyfrifon ar gael ar fy ngwefan.

Roedd blwyddyn ariannol 2017/18 yn un heriol, gyda £2.686 miliwn o doriadau pellach wedi'u gwneud. Ynghyd â'r toriadau o £1.453 miliwn a wneir yn 2018/19, ac ystyried chwyddiant a phwysau eraill, mae'r gyllideb blismona yng Ngogledd Cymru £31 miliwn yn llai nac yn 2010/11 mewn termau real. Er gwaethaf y rhagolygon mwy cadarnhaol ers 2015, mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn heriol.

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Pennwyd cyllideb flynyddol o £792,673 ar gyfer 2017/18. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd bychan i'r gyllideb ar y flwyddyn flaenorol ac mae'n adlewyrchu cyfran fy swyddfa o'r Ardoll Brentisiaethau a chynnydd i'r ffioedd archwilio mewnol (cyllideb a ddelir gan fy swyddfa i). Cyflwynwyd yr Ardoll Brentisiaethau gan y Llywodraeth yn 2017-18 ac mae hyn yn gost ychwanegol o £0.44 miliwn i'r Heddlu. Mae'r Llywodraeth yn Lloegr wedi cytuno y gellir ail-fuddsoddi'r ardoll yn y Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu (PEQF), fframwaith proffesiynol newydd ar gyfer hyfforddi swyddogion a staff yr heddlu. Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr un polisi ar gyllido Prentisiaethau ac nid yw'n bwriadu ariannu unrhyw gostau PEQF ar hyn o bryd. Bydd ffioedd dysgu yn costio £0.558 miliwn yn ychwanegol i'r Heddlu yn y pen draw ar gyfer hyfforddiant Prif Gwnstabl.

## Cyflawni'r Strategaeth Ystadau

Ysgrifennwyd a chymeradwywyd Strategaeth Ystadau newydd yn 2017/18 ar gyfer y cyfnod 2018/2028. Amcan Strategaeth Ystadau 2018 yw sefydlu fframwaith 10 mlynedd i gydgrynhoi a darparu ystâd sy'n hyfyw a hyblyg a gynlluniwyd ar gyfer normalrwydd yn hytrach nac eithriadau a lleihau costau refeniw blynyddol yr ystâd ymhellach.

Mae Strategaeth Ystadau 2018 yn adeiladu ar y rhaglen prosiect cyfalaf a gwella asedau blaenllaw yr ydym wedi'u darparu ers 2012. Disgwylir i elfennau olaf y broses weithredu hon gael eu cyflawni erbyn diwedd 2018 gyda chwblhau prosiectau Llai a Chanol Tref Wrecsam.

Cwblhawyd **gorsaf newydd yr heddlu yn Llandudno** ym mis Gorffennaf 2017 a daeth yn gwbl weithredol ym mis Hydref 2017. Mae'r adeilad yn darparu cyfleusterau ymatebion gweithredol a thîm plismona cymdogaeth ar safle hen Orsaf Heddlu Llandudno. Symudwyd **Gorsaf Heddlu Bwcle** o'r orsaf heddlu i'r Orsaf Dân yn 2017. Mae cyfleusterau iechyd a llesiant ar y cyd ar gael yno gyda swyddfa ar wahân at ddefnydd yr heddlu.

Bu i **Orsaf Heddlu Prestatyn,** a oedd wedi'i lleoli yn Adeiladau Cyngor Sir Ddinbych, gau yn ystod 2017 oherwydd bod yr Awdurdod Lleol yn gwerthu'r eiddo. Ni fu'n bosibl canfod lleoliad arall ar gyfer gorsaf. Felly, penderfynwyd adleoli'r staff i Orsaf Heddlu Rhuddlan a chreu canolfan i'r heddlu yng Ngorsaf Dân Prestatyn. Dyma'r treial llawn cyntaf o'r defnydd o gyfrifiaduron personol 2 mewn 1, a ddylai olygu llai o ddibyniaeth ar adeilad ffisegol er mwyn diweddaru gwaith achos.

# Comisiynu Gwasanaethau

Mae comisiynu yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn golygu gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl adnoddau sydd ar gael, o arian i bartneriaeth, gan sicrhau'r un pryd y canlyniadau gorau a'r gwerth mwyaf mewn dull sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amlinellu wyth egwyddor comisiynu da er mwyn helpu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a buddiannau i'r gymuned, sy'n cael eu hategu gan:-

- Deall anghenion defnyddwyr a chymunedau lleol (gan gynnwys gofyn am adborth) a rhoi hynny wrth wraidd y broses gomisiynu
- Defnyddio arbenigedd y Trydydd Sector a sefydliadau blaenllaw'r farchnad i ddeall y cyfraniad y gallant hwy ei wneud ac ystyried buddsoddi yn y meysydd hynny er mwyn gwella dulliau cyflwyno gwasanaethau
- Mae'n rhaid i hyn weithio ochr yn ochr â chyflawni Gwerth Cymdeithasol ar ffurf Llesiant Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol i bobl a chymunedau Gogledd Cymru. Fel yr wyf wedi datgan yn yr adroddiad hwn, fe wnes i gyflogi ymgynghorydd yn ystod 2017/18 i ddatblygu Polisi Gwerth Cymdeithasol ar gyfer fy swyddfa i a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod gwerth cymdeithasol y gwasanaethau a gomisiynir gennym yn cael ei gynyddu i'r eithaf a'u bod yn creu budd i'r economi leol.

# Cronfa'r Comisiynydd 2017/18

Mae Cronfa'r Comisiynydd yn cynnwys ffrydiau cyllid grant a oedd wedi'u clustnodi'n flaenorol ac mae'n cynnwys y Gronfa Diogelwch Cymunedol, y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP) a Chyllid Troseddau Ieuenctid ac Atal Camddefnyddio Sylweddau. Mae'r cyllid ar gyfer y flwyddyn yn cael ei rhannu gan y sefydliadau isod.

| DERBYNNYDD | GRANT |
|---|---|
| RHAGLEN YMYRIADAU CYFFURIAU | £892,622 |
| CAIS | £6,890 |
| HEDDLU GOGLEDD CYMRU | £37,000 |
| Gwynedd & Ynys Môn | £51,964 |
| Conwy a Sir Ddinbych | £11,126 |
| Wrecsam | £86,847 |
| Sir y Fflint | £69,430 |
| Rheoli Integredig Troseddwyr | £10,000 |
| Caethwasiaeth Fodern | £38,376 |
| Prosiect Braenaru | £61,208 |
| **CYFANSWM** | **£1,265,463** |

Yn dilyn newid a gyflwynwyd yn 2017/18, mae'r holl gymorth ariannol a roddir i'r Timau Troseddwyr Ifanc (a oedd yn cael ei ddarparu'n flaenorol gan yr Heddlu ac o Gronfa'r Comisiynydd) wedi'i gyfuno, a bydd yn cael ei weinyddu'n llwyr gan fy swyddfa i yn awr. Dylai'r newid bychan hwn ei gwneud yn fwy syml i awdurdodau lleol weinyddu, mae'n darparu mwy o wybodaeth i mi am y cyfraniadau sy'n cael eu gwneud i awdurdodau lleol, ac mae'n rhyddhau amser gwerthfawr y staff, sy'n galluogi i staff yr heddlu ganolbwyntio ar gefnogi swyddogion yr heddlu.

[1]Mae Trydydd Sector yn cyfeirio at sefydliadau neu gymdeithasau anllywodraethol a di-elw, gan gynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cwmnïau cydweithredol ac yn y blaen.

# Y Gronfa Gwasanaethau Dioddefwyr

Yn ogystal â'r Gronfa Diogelwch Cymunedol, rwy'n derbyn grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bob blwyddyn, ar gyfer comisiynu gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr. Yn ystod 2017/18 cafodd y gwasanaethau canlynol eu comisiynu:

- Canolfan Cymorth Dioddefwyr
- Cynghorwyr Annibynnol Trais Domestig (IDVA)
- Cynghorwyr Annibynnol Trais Rhywiol (ISVA)

Mae pob un o'r gwasanaethau hyn wedi gwella'r gofal a'r gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr troseddau ar draws Gogledd Cymru.

| DERBYNNYDD | GRANT |
|---|---|
| Cynghorwyr Annibynnol Trais Domestig Gwynedd | £29,400 |
| Cynghorwyr Annibynnol Trais Domestig Ynys Môn | £11,900 |
| Cynghorwyr Annibynnol Trais Domestig Sir Ddinbych | £11,900 |
| Cynghorwyr Annibynnol Trais Domestig Sir y Fflint | £40,637 |
| Cynghorwyr Annibynnol Trais Domestig Conwy | £36,400 |
| Cynghorwyr Annibynnol Trais Domestig Wrecsam | £74,820 |
| BAWSO Rhanbarthol | £35,000 |
| SARC | £120,000 |
| Y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr | £390,394 |
| Stepping Stones | £17,000 |
| RASASC | £22,000 |
| Costau staff | £24,625 |

Mae fy swyddfa wedi gweithio gyda Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Gogledd Cymru, i sicrhau bod Cynllun Comisiynu VAWDASV ar gyfer 2018/19 yn gyson â'm blaenoriaethau ar gyfer yr Heddlu a Throsedd a Strategaeth VAWDASV. Drwy waith partneriaeth effeithiol, gydag awdurdodau datganoledig a'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli, gallwn gefnogi arferion a syniadau arloesol, darparu gwerth am arian, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau hirsefydlog. Bydd hyn yn galluogi i ni, drwy gydweithio, ddarparu pecyn cyflawn o gefnogaeth i ddioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd.

Rwyf hefyd wedi comisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr Cam-drin Plant yn Rhywiol. Mae'r gwasanaethau hyn yn hollbwysig ac yn darparu cefnogaeth angenrheidiol i ddioddefwyr sydd wedi'u heffeithio gan effeithiau'r drosedd hon ers cyfnod maith.

Ers 2015-16 darparwyd cyllid ar gyfer gwaith pwysig Gwasanaeth Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc. Cafodd y cyllid hwn ei ddyrannu unwaith eto yn 2017/18 ac mae'n parhau i fod yn faes blaenoriaeth. Pan gafodd y gwasanaeth hwn ei sefydlu, dyma oedd y tro cyntaf i blant a theuluoedd allu derbyn y gefnogaeth hon yng Ngogledd Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn hollbwysig i blant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr trais rhywiol a'u teuluoedd, er mwyn galluogi iddynt dderbyn gwasanaeth cymorth di-dor hollbwysig nad yw'n ddibynnol ar benderfyniad cyhuddo cadarnhaol.

Mae Trais Domestig yn faes blaenoriaeth ac mae'n cael ei ariannu drwy Gronfa'r Comisiynydd a Chronfa'r Gwasanaethau Dioddefwyr. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y lefel gwasanaeth bresennol yn cael ei chynnal a bod y ddarpariaeth yn cefnogi dioddefwyr gwrywaidd a benywaidd trais domestig. Rhoddir y gefnogaeth hon drwy sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn diogelwch a'i bod yn annog a grymuso defnyddwyr gwasanaeth i drafod opsiynau ymarferol a datblygu cynlluniau diogelwch a chefnogaeth unigol a / neu ar gyfer y teulu. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo dioddefwyr troseddau penodol megis trais domestig a materion sy'n gysylltiedig â'r teulu.

Mae dioddefwyr wedi darparu'r adborth canlynol ar dderbyn cefnogaeth annibynnol:

> "Diolch i chi am y cymorth, ni wyddwn at bwy arall i droi"
>
> "Diolch i chi am dreulio amser yn gwrando arnaf a deall popeth"
>
> "Rydych wedi fy ngrymuso i gymryd rheolaeth a gwneud i mi edrych ar y sefyllfa mewn ffordd newydd, fe wnaethoch roi cymorth gwirioneddol i mi ar fy mhwynt isaf"
>
> "Ni allaf ddiolch digon i chi am fy nghynorthwyo gyda'r costau gwestai, teithio a bwyd.  Roedd popeth arall yn peri cymaint o bryder i mi, ni fyddwn wedi gallu ymdopi â threfnu hynny hefyd"
>
> "Diolch gymaint i chi, rydych wedi cynnig achubiaeth i ni.  Rydym wedi gallu canolbwyntio'n llwyr ar deuluoedd dioddefwyr oherwydd yr holl gymorth yr ydych chi wedi'i roi i ni ac iddynt hwy"

Mae'n bwysig nodi, heb yr ymrwymiad hwn gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y byddai'r sefydliadau hyn yn ei chael yn anodd iawn i gynorthwyo'r dioddefwyr hyn yn y gymuned.

# CYSYLLTIADAU

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae gennyf dîm bychan o staff sydd yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech drafod sut y gallwch gyfranogi mewn ymgynghoriadau neu ddigwyddiadau yn y dyfodol, cysylltwch â:

**01492 805486** neu cysylltwch â mi drwy e-bost yn **OPCC@northwales.pnn.police.uk**

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am fy ngwaith gallwch:

• ymweld â'm gwefan **www.nwpcc.CYMRU** • fy nilyn ar Twitter **@NorthWalesPCC**

## Heddlu Gogledd Cymru

Mewn argyfwng y rhif i'w ddeialu yw 999 ac os oes gennych ymholiad neu wybodaeth nad yw'n frys, i'w rhannu â'r heddlu, ffoniwch 101.

E-bost **northwalespolice@nthwales.pnn.police.uk** gwefan **www.north-wales.police.uk**

twitter **@nwpolice**

## Canolfan Cymorth Dioddefwyr

Os ydych wedi bod yn ddioddefwr trosedd, gall Canolfan Cymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru gynnig y gefnogaeth a'r cyngor sydd ei angen arnoch. Mae'r gwasanaeth am ddim ac mae'n gwbl gyfrinachol a gallwch gysylltu â hwy hyd yn oed os nad ydych wedi hysbysu'r heddlu ynglŷn â'ch profiad. Rhadffôn Llinell Gymorth 24 awr ar **0808 16 89 111** neu **0300 30 30 159**

Gwefan **www.victimhelpcentrenorthwales.org.uk**

## PACT

Gall Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned, eich helpu gyda chais am gyllid gan y prosiect "Eich Cymuned, Eich Dewis". Cysylltwch â hwy ar **01745 588516** gwefan **www.pactnorthwales.co.uk**

## Crime Stoppers

Pan fyddwch yn cysylltu â ni gellir gwarantu eich anhysbysrwydd – p'un a fyddwch yn penderfynu cysylltu â ni ar **0800 555 111** neu drwy ddefnyddio ein ffurflen ddienw syml ar-lein. **www.crimestoppers-uk.org**

## Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern

Mae Llinell Gymorth a Chanolfan Adnoddau Caethwasiaeth Fodern yn golygu ein bod yn agosach at ddiddymu caethwasiaeth fodern. Mae'n darparu mynediad at wybodaeth a chefnogaeth 24/7 i ddioddefwyr, y cyhoedd, asiantaethau statudol. Cysylltwch â ni **08000 121 700** gwefan **www.modernslaveryhelpline.org**